

Materion Cydraddoldeb

Canllaw Arfer Da

Wedi'i ddiwygio Hydref 2011

Materion Cydraddoldeb
Côd stoc EMG1
ISSN Argraffu 1744-4756
ISSN (Ar-lein) 1744-4764

Copiau pellach ar gael o:

E-bost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ffôn 0845 4 10 20 30
Ffôn testun 0845 6 02 16 59
Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk
Ysgrifennwyd gan: Susan Elisabeth (Ymgynghorydd annibynnol)

Hygyrchedd

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig sydd gennych

Ein hegwyddorion cydraddoldeb

Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfle cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais ac eithrio.

Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a defnyddio adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth

Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein Gwerthoedd

Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; hygyrchedd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i hymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau ac fel cyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymagwedd gynhwysol at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a chyflogeion yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Hydref 2011

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Adran 1: Y Gronfa Loteri Fawr: ein hymagwedd at gydraddoldeb	5
Adran 2: Cyflwyno cais i'r Gronfa Loteri Fawr: ystyried cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf	10
Adran 3: Nawr eich bod wedi ennill y grant: rhoi cydraddoldeb ar waith	25
Cefnogaeth pellach	
A: Y gyfraith a chydraddoldeb	30
B: Chwalu jargon	39
C: Siartiau cynllunio cydraddoldeb	45
Ch: Manylion cyswllt allweddol	49

Cyflwyniad

Mae cydraddoldeb yn bwysig i'r Gronfa Loteri Fawr. Rydym eisiau defnyddio arian y Loteri er mwyn cyflwyno newidiadau i gymunedau drwy ariannu pobl, prosiectau a rhaglenni, gyda phwyslais penodol ar fynd i'r afael ag angen. Mae'r canllaw hwn yn rhan o'n hymgyrch i hyrwyddo cydraddoldeb a mwyafu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn prosiectau yr ydym yn eu hariannu.

Wrth roi cydraddoldeb wrth wraidd cynllunio prosiectau a'u rhoi ar waith, mae mudiadau'n fwy tebygol o gyflawni canlyniadau gwell.

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Arweiniad ymarferol yw hwn. Fe'i dylunnir i'ch helpu i feddwl am eich arfer dyddiol ar gydraddoldeb a'i ddisgrifio. Mae wedi'i anelu'n benodol at fudiadau bach a chanolig y sector gwirfoddol neu gymunedol, p'un a ydynt yn cyflwyno cais am arian i'r Gronfa Loteri Fawr ai beidio.

Nod y canllaw hwn yw eich helpu i nodi'r hyn yr ydych eisoed yn ei wneud yn dda yn eich ymagwedd at faterion cydraddoldeb, a'ch helpu i nodi sut y gallwch wella ar hynny. Serch hynny, yn y pen draw, chi sy'n penderfynu i ba raddau yr ydych eisiau ystyried materion cydraddoldeb.

Mae'r canllaw hwn yn anelu at eich helpu mewn tair ffordd:

1. Mae'n rhoi cymorth ymarferol ar sut i gynnwys cydraddoldeb wrth gynllunio prosiectau newydd.

2. Mae'n esbonio egwyddorion cydraddoldeb y Gronfa Loteri Fawr a pham ei bod yn bwysig rhoi sylw i'r rhain os ydych chi'n ymgeisio am grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Yn gyffredinol byddem yn disgwyl i chi ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb sy'n gymesur â natur a maint eich prosiect a'ch mudiad.

3. Mae'n esbonio sut mae'r Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i'ch mudiad rhoi cydraddoldeb ar waith ar ôl i chi dderbyn grant.

Ar hyd y ffordd, byddwn yn darparu ymarferion ac awgrymiadau ymarferol. Byddwn hefyd yn edrych ar rai o'r camgymeriadau cyffredin y mae ymgeiswyr grant yn eu gwneud, a byddwn yn darparu enghreifftiau o arfer da mewn ceisiadau blaenorol i'r Gronfa Loteri Fawr.

Adran 1

1. Beth mae cydraddoldeb yn ei olygu?

Mae cydraddoldeb yn derm cryno am yr holl waith y mae mudiad yn ymgymryd ag ef er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal a herio gwahaniaethu, o fewn cyflogaeth, a hynny wrth gyflawni ei waith a chyflwyno gwasanaethau.

2. Beth yw chwe egwyddor cydraddoldeb y Gronfa Loteri Fawr?

Nod y Gronfa Loteri Fawr yw cefnogi prosiectau sy'n dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw, rydym wedi mabwysiadu chwe egwyddor cydraddoldeb fel sail i'n gwaith. (DS: nid yw'r rhestr hon mewn unrhyw drefn flaenoriaeth). Disgwyliwn i unrhyw fudiad a ariannwn rannu ein hymrwymiad i'r egwyddorion hyn:

Hyrwyddo hygyrchedd

Dylai pobl fedru defnyddio gwasanaethau yn hwylus heb orfod treulio gormod o amser na gwario gormod o arian a dylai'r gwasanaethau hyn fod yn sensitif i wahanol anghenion y bobl sy'n eu defnyddio.

Gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol

Mae gan bobl wahanol anghenion, credoau, gwerthoedd a galluoedd gwahanol, ac mae'n rhaid parchu a hyrwyddo'r gwahaniaethau hyn. Mae amrywiaeth ddiwylliannol o fewn mudiad yn helpu i:

- feithrin ymddiriedaeth a hyder rhwng amrywiol gymunedau
- darparu cymysgedd mwy cyfoethog o syniadau a doniau i dynnu ohonynt
- creu proses fwy effeithlon ac effeithiol o wneud penderfyniadau.

Hyrwyddo cymryd rhan

Mae'r gwasanaethau gorau'n seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'r anghenion y maent yn ceisio eu diwallu. Golyga hyn y dylid cysylltu â'r bobl y bydd y gwasanaethau yn effeithio arnynt wrth eu datblygu, gan mai nhw sy'n gwybod orau beth yw eu hanghenion. Yn draddodiadol, tueddir i ymgynghori a chysylltu â rhai grwpiau yn fwy na grwpiau eraill. Yr her i lawer o fudiadau yw estyn allan a chynnwys grwpiau sydd yn aml yn cael eu hepgor, a'u helpu i gymryd rhan fwy gweithredol wrth lunio'r gwaith y mae'r mudiad yn ei gyflawni.

Hyrwyddo cyfle cyfartal

Mae rhai grwpiau yn y gymuned yn ei chael yn anos cael swyddi ac mae'n bosibl y byddant hefyd yn ei chael hi'n anos gwneud defnydd o'r gwasanaethau, neu'n ei chael yn anos defnyddio'r gwasanaethau hynny. Credwn y dylem greu maes chwarae gwastad i bawb, ac fe allai hyn olygu trin pobl yn wahanol er mwyn eu helpu i gael yr un cyfle i gymryd rhan mewn gwaith neu wasanaethau lleol.

Hyrwyddo cymunedau cynhwysol

Rydym am helpu i adeiladu cymunedau cryfach, lle bydd:

- pobl yn teimlo eu bod yn perthyn
- eu bywydau yn cael eu gwerthfawrogi

- gan bobl gyfleoedd bywyd tebyg, a lle bydd
- pherthnasoedd cryf a chadarnhaol yn datblygu rhwng pobl o wahanol gefndiroedd.

Lleihau anfantais ac eithrio

Er mwyn helpu'r grwpiau sy'n profi'r risg fwyaf o fod dan anfantais neu wedi'u heithrio o waith a gwasanaethau, mae angen rhoi mentrau ar waith sy'n:

- ymdrin ag achosion o anfantais ac eithrio, ac sy'n
- hyrwyddo cynnwys y bobl fwyaf difreintiedig ac eithriedig.

Beth mae difreintiedig yn ei olygu?

Mae gan bobl ddifreintiedig neu eithriedig lai o gyfleoedd na'r rhan fwyaf o bobl yn y gymdeithas o'u cwmpas, neu nid ydynt yn rhannu'r un ansawdd bywyd â'r bobl o'u cwmpas.

Gall pobl fod o dan anfantais o ganlyniad i nifer o ffactorau gwahanol yn eu bywydau, a all gyfnerthu ei gilydd. Weithiau mae anfantais yn gysylltiedig â thlodi; gall fod o ganlyniad i batrymau o wahaniaethu neu eithrio; gall ddeillio o fathau eraill o wahaniaethau rhwng pobl. Mae anfantais yn amrywio rhwng gwahanol gymunedau ac o fewn cymunedau.

Gallai grwpiau difreintiedig gynnwys:

- pobl sy'n ddi-waith
- rhieni sengl
- pobl gyda chyfrifoldebau gofalu
- teuluoedd ar incwm isel
- pobl sengl sy'n ddigartref
- pobl ifanc
- cyn-droseddwyr
- pobl gyda sgiliau darllen ac ysgrifennu gwael
- pobl ifanc yn gadael gofal
- pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol
- Teithwyr
- pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell
- pobl y mae ieithoedd y wlad hon yn ail iaith iddynt.
- ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Nad rhestr gynhwysfawr yw hon.

Mae rhai pobl yn profi mwy nac un ffurf ar anfantais e.e. cyn-droseddwyr gyda sgiliau darllen ac ysgrifennu gwael, rhieni sengl mewn ardaloedd gwledig anghysbell neu bobl ifanc anabl sy'n gadael gofal. Yn y cyfryw achosion, bydd eu hanghenion yn arbennig o ddifrifol.

Mae'r gyfraith yn cydnabod y gall rhai grwpiau o fewn ein cymdeithas brofi gwahaniaethu, ac mae'n ceisio eu hamddiffyn.

Gan hynny, ni ellir gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail:

- a eu rhyw
- b eu hil/ethnigrwydd
- c eu crefydd neu gred
- ch eu tueddfryd rhywiol
- d eu hoedran.

nac oherwydd eu bod:

- dd yn anabl
- e yn feichiog
- f yn briod neu
- ff mewn partneriaeth sifil.

Ar ben hynny, yng Ngogledd Iwerddon ni ellir gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail barn wleidyddol, nac oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu.

Yng Nghymru, mae'n **rhaid** i fudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ar ran awdurdod cyhoeddus ymgymryd â'u gwaith ar sail cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn yr Alban, cynghorir mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ar ran awdurdod cyhoeddus y **dylent** ymgymryd â'u gwaith ar sail cydraddoldeb rhwng Gaeleg a'r Saesneg.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i'r holl ymgeiswyr gydymffurfio â'r gyfraith a dangos eu bod yn gweithio mewn ffyrdd sy'n cydnabod hawliau'r holl grwpiau sy'n cael eu diogelu gan y gyfraith. (Mae crynodeb o'r holl ddarnau deddfwriaethol perthnasol ar gael o fewn adran 'cefnogaeth bellach' y canllaw hwn).

Serch hynny, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn adnabod nad yw grwpiau y mae'r gyfraith yn eu diogelu o reidrwydd o dan anfantais yn awtomatig. Er enghraifft felly, pe bai eich grŵp yn gweithio gyda phobl hŷn, byddai angen o hyd i chi ddangos eu bod yn wynebu anfantais er mwyn sicrhau grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Yn anad dim, rydym eisiau gwybod pwy sy'n profi anfantais yn eich cymuned a'r hyn yr ydych chi'n ei wybod am eu hanghenion.

O fewn cais grant da, rydym eisau gweld a allwch ddisgrifio:

- y mathau o anfantais a brofir yn eich cymuned
- sut y bydd eich prosiect yn bodloni anghenion grwpiau difreintiedig, p'un a yw'r gyfraith yn eu diogelu ai beidio
- sut y byddwch yn ceisio cynnwys grwpiau difreintiedig yn ddyddiol yn eich gwaith, gydag enghreifftiau ymarferol.

4. A ddylem anelu ein prosiect at y gymuned gyfan, neu ei dargedu at grwpiau difreintiedig?

Mae dwy ymagwedd gyffredinol at hyrwyddo cydraddoldeb. Y cyntaf yw creu gwasanaethau i'r gymuned gyfan, gan gynnwys grwpiau difreintiedig. Fe allai olygu

gwneud ystod o newidiadau i'r ffordd yr ydych chi'n gweithio fel bod pobl o grwpiau difreintiedig yn gwybod am eich prosiect, yn cael eu croesawu ac yn gallu defnyddio'ch gwasanaethau. Gelwir hyn weithiau yn **ymagwedd gynhwysol**.

Yr ail ymagwedd yw sefydlu prosiect sydd wedi'i anelu at grŵp difreintiedig penodol, er mwyn dwyn pobl ynghyd sy'n rhannu profiadau tebyg. Eto fe allai olygu meddwl o'r newydd am y ffordd yr ydych chi'n gweithio er mwyn i'r bobl hŷn ddefnyddio'r prosiect newydd. Gelwir hyn weithiau yn **ymagwedd a dargedir**.

Enghraifft o ymagwedd gynhwysol

Roedd asiantaeth gynghori eisiau ymateb i alw cynyddol am ei wasanaethau. Ynghyd â darparu rhagor o sesiynau wyneb yn wyneb, fe sefydlodd wasanaeth cynghori ar y ffôn a thrwy e-bost hefyd.

Y nod oedd cynyddu nifer y bobl yr oedd yn eu helpu, ond hefyd gwella mynediad i'r sawl a oedd yn ei chael yn anodd teithio i un o swyddfeydd yr asiantaeth - pobl hŷn, pobl anabl; ynghyd â'r sawl nad oeddent yn gallu mynychu sesiynau yn ystod oriau agor arferol, megis pobl ifanc a'r rhai a oedd yn gweithio.

Golygodd hyn hefyd eu bod yn gallu gwneud y defnydd gorau o gynghorwyr â sgiliau iaith gymunedol. Yn hytrach na theithio i wahanol swyddfeydd, gallai'r cynghorwyr ffonio pobl yn ôl.

Drwy newid ei hymagwedd, cynyddodd yr asiantaeth gynghori nifer y bobl yr oedd yn gallu eu helpu yn sylweddol, a gwneud hynny mewn modd a oedd yn gwella mynediad ar gyfer ystod o grwpiau yn y gymuned gydag anghenion penodol.

Enghraifft o ymagwedd a dargedir

Rhedodd canolfan gymunedol sy'n gwasanaethu ardal ganol dinas amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys gwaith ieuencid, meithrinfa, clybiau ar ôl ysgol, clwb cinio ar gyfer pobl hŷn, prosiect iechyd a hyfforddiant sgiliau TG.

Er eu bod mewn cysylltiad gyda nifer fawr o bobl hŷn, nid oedd unrhyw un dros 50 yn cofrestru ar gyfer eu cyrsiau TG.

Aethant at y bobl a oedd yn mynychu eu clybiau cinio a'r bobl hŷn a oedd yn gysylltiedig â'u prosiect iechyd er mwyn gweld beth oedd y rheswm dros hyn. Y farn oedd:

- Bod pobl hŷn wedi'u dychryn gan yr hyn a oedd, yn eu tyb hwy, yn hyder cynyddol pobl ifanc o ran sgiliau TG.
- Bod pobl hŷn eisiau dysgu ar rediad mwy hamddenol nac oedd yr hyfforddiant presennol yn ei ganiatáu, ac eisiau dysgu am resymau gwahanol.

- Bod pobl hŷn eisiau defnyddio TG yn bennaf am resymau cymdeithasol a theuluol, yn hytrach na sicrhau cymhwyster TG, sefyll arholiadau neu brofion.

Er mwyn iddynt gyflawni'r nod o bontio'r 'bwlch digidol' yn eu cymuned yn llawn, teimlodd y prosiect y byddai'n rhaid iddynt sefydlu gwasanaeth penodol ar gyfer pobl hŷn, a oedd yn cydnabod eu hanghenion a'u diddordebau penodol. Crëwyd cyfres o weithdai newydd ac anffurfiol gyda'r nod o ddod ag arbenigedd TG i bobl hŷn yr ardal leol.

Gall y Gronfa Loteri Fawr gefnogi'r naill na'r llall o'r ymagweddau hyn at gydraddoldeb. Os dymunwch i'r Gronfa Loteri Fawr ddyfarnu arian ar gyfer prosiectau wedi'u targedu, mae'n rhaid i chi ddangos mai dyma'r ffordd orau o ddiwallu anghenion y grŵp rydych yn ei dargedu. O fewn yr ymagwedd hon byddai'n rhaid i chi ddangos o hyd eich bod yn rhoi ystyriaeth i faterion amrywiaeth.

Yn yr enghraifft a ddangosir, er enghraifft, byddai'n rhaid i'r ymgeiswyr sicrhau y gallai pobl hŷn o gymunedau lleiafrifoedd ethnig neu bobl hŷn gyda chyfrifoldebau gofalu ddefnyddio'r prosiect.

Adran 2

Ymgeisio i'r Gronfa Loteri Fawr: ystyried cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr ystod eang o raglenni y gall sefydliadau ymgeisio ar eu cyfer. Gall y ffurflenni a'r prosesau ymgeisio fod yn wahanol, gan ddibynnu ar y rhaglen yr ydych chi'n ymgeisio ar ei chyfer, maint y grant yr ydych chi'n gofyn amdano, a pha un a ydych chi'n ymgeisio ar eich pen eich hun, neu gyda sefydliadau eraill.

Golyga hyn ei bod yn anodd cyffredinoli am faint o wybodaeth y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i chi ei rhoi am eich arferion cydraddoldeb. A siarad yn gyffredinol, po fwyaf yw'r grant yr ydych chi'n gofyn amdani, y mwyaf o wybodaeth y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn gofyn amdani oddi wrthy.

Sut i gael y gorau o'r adran hon

Mae'r adran hon yn dilyn pedwar cam allweddol yn y broses o gynllunio eich prosiect:

- deall yr angen a'ch buddiolwyr
- bod yn glir am eich nodau, y canlyniadau a'r hyn y dymunwch ei wneud
- cyrraedd yr holl fuddiolwyr posibl a'u galluogi i ddefnyddio'r prosiect
- archwilio materion rheoli a pholisi.

Mae'r adran hon yn defnyddio'r un ymagwedd gyffredinol â chanllaw blaenorol y Gronfa Loteri Fawr i ddefnyddio ymagwedd seiliedig ar ganlyniadau 'Esbonio'r gwahaniaeth a ddaw yn sgil eich prosiect'. Y ffordd hon, gobeithiwn ddangos sut y gellir meddwl am ystyriaethau cydraddoldeb ym mhob cam o'r broses o gynllunio eich prosiect.

Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl i chi ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb, sy'n gymesur â natur a maint eich prosiect a'ch mudiad. Serch hynny, yn y pen draw, chi sy'n dewis i ba raddau yr ydych chi eisiau ystyried materion cydraddoldeb.

Rydym yn defnyddio astudiaeth achos o ganolfan deuluol ffuglennol drwy gydol yr adran hon, er mwyn dangos sut y gall mudiad fynd i'r afael â materion cydraddoldeb wrth gynllunio a chyflwyno ei wasanaethau. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwneud pethau'n haws i weld sut y mae theori yn troi'n arfer. Rydym hefyd yn cynnwys rhai astudiaethau achos mudiadau go iawn sydd wedi cyflwyno cais llwyddiannus i'r Gronfa Loteri Fawr.

Mae'n bosibl mai'r ffordd orau i fynd ati yw darllen drwy'r adran hon, yna gweithio gyda phobl eraill yn eich prosiect er mwyn llenwi'r siartiau yn adran 'cefnogaeth bellach' yr arweiniad hwn. Rydym wedi darparu'r siartiau fel ymdriniaeth awgrymedig, ond nid yw'n orfodol eu cwblhau ac nid oes gofyn i chi gyflwyno'r wybodaeth hon gyda'ch cais.

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r siartiau, mae'n bwysig cwblhau un cam cyn mynd i'r afael â'r nesaf, gan eu bod yn adeiladu ar ei gilydd.

Ar ôl i chi orffen llenwi'r siartiau, dylech fod â'r wybodaeth y mae ei hangen arnoch er mwyn dangos i'r Gronfa Loteri Fawr yn eich cais eich bod yn ymdrin â materion cydraddoldeb yn ddifrifol yn eich gwaith. Mae'r siartiau hefyd yn cynnwys awgrymiadau yn dweud wrthyhych chi pa gwestiynau ar y ffurflen gais y gallai'r wybodaeth berthyn iddi.

Cofiwch!

- Mae'n gamgymeriad meddwl mai dim ond yn y cwestiwn cyfle cyfartal y dylech ddisgrifio eich ymagwedd at gydraddoldeb. Mae'r ceisiadau gorau yn dangos bod sylw yn cael ei dalu i faterion cydraddoldeb ym mhob cam.
- Fel rheol, disgwylir i'r mudiadau mwy a phrofiadol a'r sawl sy'n gofyn am grantiau mwy roi mwy o wybodaeth am eu hymagwedd at gydraddoldeb.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod wedi bodloni eich holl ymrwymadau cydraddoldeb oherwydd eich bod yn gweithio gydag un grŵp difreintiedig penodol. Er enghraifft, mae'n bosibl eich bod yn gweithio gyda chyn-droseddwyd, ond a yw eich mudiad yn cael ei ddefnyddio gan fenywod ynghyd â dynion, a chan bobl o wahanol oedrannau?

Cam 1

Cynllunio eich prosiect: deall yr angen a'ch buddiolwyr

Dyma'r cam cyntaf wrth lunio eich cais, a dyma'r fan hefyd i gychwyn meddwl am gydraddoldeb. Mae'n bosibl y bydd gennych syniad clir am yr hyn y dymunwch ei wneud – yn aml oherwydd bod eich gwaith cyfredol wedi dangos i chi bod angen heb ei fodloni neu broblem y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi yn eich cymuned.

Mae'n bosibl y bydd amryw fathau o dystiolaeth y byddwch eisiau eu defnyddio er mwyn cefnogi eich cais:

- eich profiad eich hun, o'ch gwaith beunyddiol
- ystadegau am yr ardal leol a'i phoblogaeth o'r cyfrifiad cenedlaethol neu arolygon eraill (yn aml mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi crynodebau defnyddiol)
- ymchwil penodol yr ydych chi neu fudiad arall wedi'i chyflawni
- adborth gan bobl sydd â phrofiad o'r angen.

Er bod eich gwybodaeth yn bwysig, mae'n rhaid cofio ei bod, o bosib, yn seiliedig ar brofiadau'r bobl sy'n defnyddio eich prosiect yn barod.

Beth ydych chi'n ei wybod am grwpiau yn eich cymuned a allai elwa o'r gwaith y bwriadwch ei wneud nad ydynt eisoes mewn cysylltiad â chi? Fel arall, mae'n bosib y byddwch yn adnabod angen nad ydych yn ei fodloni, ond nid ydych yn gwybod beth

yw'r ffordd orau o fynd i'r afael ag ef, gan nad ydych chi mewn cysylltiad â'r bobl yr effeithir arnynt ganddo.

Y naill ffordd neu'r llall, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi feddwl yn greadigol am sut y gallwch gysylltu gyda phobl nad ydynt eisoes yn defnyddio eich prosiect, er mwyn i chi siarad â hwy am eu hanghenion a sut y gallwch eu hannog i ddefnyddio eich prosiect.

Cwestiynau allweddol cydraddoldeb:

- A allwch chi adnabod yn hyderus y gwahanol fathau o anfantais y mae'r bobl yr ydych am eu gwasanaethu yn eu hwynebu?
- Sut allwch chi estyn allan i bobl neu grwpiau difreintiedig er mwyn gweld beth yw eu hanghenion?
- A ydych chi wedi ystyried anghenion grwpiau yn y gymuned nad ydynt yn defnyddio eich gwasanaethau ar hyn o bryd?
- A yw eu hanghenion yr un peth â rhai'r grwpiau yr ydych chi eisoes yn eu hadnabod yn dda? Os nad ydynt, sut maent yn wahanol?

Enghraifft: Canolfan deuluoedd leol

Mae'r ganolfan hon yn bodoli ers 20 mlynedd ac yn gwasanaethu cymuned gyda chyfran uchel o blant a phobl ifanc. Teuluoedd rhieni sengl yw 25 y cant o'r teuluoedd lleol.

Mae'r ganolfan yn rhedeg dosbarthiadau magu plant rheolaidd, sesiynau addysg teuluol yn canolbwyntio ar ddarllen, mathemateg a TG, canolfan gynghori, dosbarthiadau paratoi ar gyfer swyddi, a diwrnodau hwyl a gwibdeithiau teuluol yn ystod gwyliau'r haf.

Mae wedi adnabod mai menywod yw 80 y cant o'r oedolion sy'n defnyddio'r ganolfan yn rheolaidd. Yn benodol, nifer bach yn unig o ddynion ifanc sy'n defnyddio'r ganolfan.

Mae llawer o wybodaeth am eich ardal ar gael o'r sefydliadau a ganlyn:
Cronfa Ddata Cymdogaethau Ystadegau Gwladol

www.statistics.gov.uk

Ffôn: 0845 601 3034

Cam 1: deall yr angen a'ch buddiolwyr posib

Beth yw'r angen?	Pwy allai elwa o'r prosiect? O fewn hwn, a yw unrhyw grwpiau'n wynebu anfantais benodol?	A ydym ni eisoes mewn cysylltiad â hwy?	Sut allwn ni ddysgu am yr hyn y mae ei angen arnynt?	Beth maent wedi'i ddweud wrthym am eu hanghenion?
Nid yw tadau ifanc yn chwarae rhan weithredol ym mywydau eu plant.	Dynion ifanc 16 – 25 mlwydd oed, p'un a ydynt yn byw gyda'u plant ai beidio Dengys ystadegau: * bod 50 y cant yn wyn * bod 40 y cant o'r gymuned Pobl Dduon Carabiaidd * a daw 10 y cant o'r gymuned Asiaidd.	– dim llawer ohonynt. * Nid ydynt yn dod i'n cyrsiau "Pŵer Rhieni" nac ein diwrnod hwyl i'r teulu. Roedd rhai yn arfer dod i'r ganolfan pan oeddent yn blant.	* Ewch i siarad â hwy mewn mannau lle gwyddys bod dynion ifanc yn dod ynghyd. Er enghraifft, clybiau chwaraeon, canolfannau ieuenctid a siopau bwyd parod lleol. * Cynhaliwch gyfarfod ymgynghori a gwahoddwch dadau ifanc drwy adael taflenni yn yr un mannau.	* Credant mai "pethau merched" yw materion teuluol ac nid yn rhywbeth "i ddynion". * Maent yn ei chael hi'n anodd siarad am eu teimladau. * Maent yn ei chael hi anodd trafod gyda'u partneriaid/cynbartneriaid am eu plant. * Mae tadau ifanc Asiaidd dibriod yn wynebu stigma o fewn eu gymuned.

Cofiwch!

Y peth pwysicaf ar hyn o bryd yw meddwl am bawb a all elwa o'ch prosiect, nid dim ond y bobl yr ydych chi eisoes mewn cysylltiad â hwy. Cefnogwch yr hyn yr ydych chi wedi'i ddysgu yn eich gwaith beunyddiol gyda:

- ffeithiau a ffigurau perthnasol, a'r
- hyn mae pobl a allai ddefnyddio'r prosiect yn ei ddweud am beth y mae ei angen arnynt.

Byddwch yn barod i estyn allan i grwpiau yn y gymuned nad ydych yn eu hadnabod yn dda. Darganfyddwch sut y gallai eich prosiect eu helpu.

Tynnir yr astudiaeth achos a ganlyn o gais diweddar i un o raglenni'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'n dangos mudiad a weithiodd yn galed i ddeall anghenion y bobl yr oeddent yn ceisio eu cyrraedd. Fe wnaethant sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r data ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi yna aethant ati i gysylltu â chynifer o ddefnyddwyr potensial â phosibl. Roeddent yn greadigol iawn yn y ffordd y gwnaethant hyn ac erbyn diwedd yr ymgynghoriad, roeddent yn gallu dangos dealltwriaeth ddofn o'r hyn yr oedd pobl ifanc yn eu hardal ei eisiau a'i angen.

Astudiaeth achos arfer da

Estyn allan: arfer da mewn ymgynghori

Roedd prosiect ieuentid yng Ngogledd Iwerddon eisiau denu pobl ifanc a oedd y tu hwnt i fywyd prif ffrwd y gymuned. Ar ôl ymchwilio i'r ardal yr oeddent yn byw ynddi, roeddent yn gwybod ei bod ymhlith 5 y cant o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon. Roedd ganddi hefyd niferoedd uwch na'r cyfartaledd o bobl ifanc yn byw yno – 3,500 at ei gilydd.

Gofynnodd yr ymgeiswyr i bwyllgor ieuentid y clwb (pob un ohonynt yn bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed) i gynllunio proses ymgynghori er mwyn iddynt weld beth yn union yr oedd pobl ifanc yr ardal ei eisiau. Aethant ati i weithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys y canlynol:

- Rhoddwyd nifer targed o bobl ifanc a oedd eisoes yn mynychu'r clwb i bob aelod o'r pwyllgor ieuentid siarad â hwy a dod â'r wybodaeth hon yn ôl i'r pwyllgor (ymgynghorwyd â 225 o bobl ifanc).
- Aeth defnyddwyr y prosiect ieuentid allan i ystadau lleol er mwyn siarad â phobl ifanc eraill mewn siopau, clybiau, corneli strydoedd ayyb. Amrywiodd y dulliau o lenwi holiaduron i sgysiau anffurfiol. Cymerodd 450 o bobl ifanc ran.
- Trefnodd y prosiect ieuentid gynhadledd undydd, lle dywedwyd wrth y bobl ifanc beth oedd canlyniadau'r ymgynghoriad hyd at hynny, a chynhaliwyd rhagor o drafodaethau mewn gweithdai. Cymerodd 237 o bobl ifanc ran yn y digwyddiad hwn.

Dros gyfnod o dri mis llwyddodd y prosiect i siarad ag ymron i drydydd o'r bobl ifanc yn eu dalgylch. O blith y rhain, dim ond un rhan o dair a oedd eisoes yn defnyddio'r prosiect. Roedd y cais i'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio arian i sefydlu ystod o raglenni byr yn ymwneud â'r materion a adnabuwyd drwy ymgynghori. Trwy geisio barn y bobl ifanc nad oeddent eisoes yn defnyddio'r prosiect, sicrhodd yr ymgeiswyr bod eu gweithgareddau a'u gwasanaethau yn bodloni anghenion holl bobl ifanc yr ardal.

Cam 2

Bod yn glir ynglŷn â'ch nodau, eich canlyniadau a'r hyn y dymunwch ei wneud

Unwaith yr ydych yn glir ynglŷn ag anghenion eich prosiect, gallwch benderfynu pa wahaniaeth y dymunwch ei wneud, a sut y bwriadwch wneud y gwahaniaeth. Ar y pwynt hwn mae'n bosibl y byddwch eisiau penderfynu p'un a fydd eich prosiect yn cynnig gwasanaethau sy'n hygyrch i'r gymuned gyfan, gan gynnwys grwpiau difreintiedig (ymagwedd gynhwysol) neu p'un a ydych chi eisiau sefydlu prosiect sydd wedi'i anelu at grŵp difreintiedig penodol (ymagwedd a dargedir).

Yn enghraifft y ganolfan deuluol yr ydym yn ei defnyddio, mae elfennau o'r ddwy ymagwedd. Mae'r ganolfan yn cynnig adolygu ei gweithgareddau cyfredol er mwyn eu gwneud yn "fwy addas i dadau" ac er mwyn sefydlu rhai gweithgareddau newydd a fydd yn ymateb i anghenion tadau lleol, ond a fydd hefyd ar gael i'r holl rieni.

Ar y llaw arall, mae rhai gweithgareddau wedi'u targedu yn cael eu sefydlu er mwyn apelio'n benodol at dadau ifanc (y sesiynau tadau a phlant) ac mae'r ganolfan hefyd yn cynllunio prosiect penodol ar gyfer tadau Asiaidd ifanc, oherwydd eu bod hwy yn wynebu anawsterau ychwanegol wrth gymryd rhan.

Yn ymarferol, yr ymagwedd gymysg hon yn aml yw'r ffordd y mae mudiadau'n ceisio agor eu gwaith i fyny i grwpiau newydd sydd ag anghenion heb eu diwallu.

Cofiwch!

Pa bynnag ymagwedd at gydraddoldeb y byddwch yn ei dewis, mae'n rhaid i chi fedru dangos sut mae'n cysylltu â'r anghenion yr ydych chi wedi'u hadnabod.

Cwestiynau cydraddoldeb allweddol:

- Gan eich bod yn gwybod beth yw'r anghenion, beth yw'r gwahaniaeth cyffredinol y dymunwch ei wneud?
- Beth yw'r prif bethau yr ydych eisiau eu newid erbyn diwedd y prosiect? A oes unrhyw un o'r newidiadau hyn yn ymwneud â grwpiau difreintiedig?
- Beth y mae'n rhaid i chi ei wneud er mwyn cyflwyno'r newidiadau hyn?
- A allwch chi gyflawni'r newidiadau yr ydych chi'n eu dymuno drwy wneud eich gwasanaethau'n hygyrch i bawb yn y gymuned, gan gynnwys grwpiau difreintiedig? Neu a oes angen i chi gynnig gwasanaeth arbenigol ac wedi'i dargedu? Neu'r ddau?
- Er mwyn i chi gyrraedd eich grwpiau targed, sut y gallai fod yn rhaid i chi newid eich gweithgareddau a'ch ymagwedd o'r hyn yr ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?

Enghraifft: Canolfan deuluoedd leol

Cam 2: Bod yn glir ynglŷn â'ch nodau, canlyniadau a'r hyn y dymunwch ei wneud

Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud? (nod cyffredinol)	Beth yw'r prif newidiadau yr ydym eisiau eu cyflawni? (canlyniadau arfaethedig)	Beth fyddwn ni'n ei wneud er mwyn cyflawni hyn? (gweithgareddau)
<p>– gwella gallu tadau ifanc i fod yn rhieni da, p'un a ydynt yn byw gyda'u plant ai beidio.</p>	<p>Tadau yn chwarae rhan fwy gweithredol gyda'u plant, ym meysydd:</p> <ul style="list-style-type: none">• dysg• iechyd• datblygiad cymdeithasol• chwarae. <p>Llai o wrthdaro rhwng rhieni ifanc am fagwraeth eu plant</p> <p>Tadau Asiaidd ifanc yn teimlo'n llai unig.</p> <p>Tadau ifanc yn mynegi mwy o hyder yn eu perthynas gyda'u plant.</p>	<p>Ar gyfer cyrsiau a gweithgareddau cyfredol yn y ganolfan ystyriwch sut y gellir eu gwneud yn fwy atyniadol i dadau ifanc (e.e. amseru), a gwnewch newidiadau.</p> <p>Darparu rhaglen "tadau a phlant" newydd, gyda sesiynau megis:</p> <ul style="list-style-type: none">• pêl-droed• sgiliau cyfrifiadurol, a• bwyd a choginio. <p>Sefydlu cwrs datrys gwrthdaro newydd i gyplau, gan ganolbwyntio ar eu rolau fel rhieni.</p> <p>Creu cyfleoedd ar gyfer tadau i gefnogi ei gilydd yn eu rôl fel rhieni.</p>

Cofiwch!

Mae'r cam hwn yn ymwneud â chynllunio da yn gyffredinol. Dylai materion cydraddoldeb ymddangos yn naturiol yn y cam hwn, cyhyd â'ch bod:

- yn deall y broblem yn glir
- yn gwybod beth yw anghenion yr holl bobl a allai ddefnyddio'ch prosiect, a'ch
- wedi seilio'r hyn yr ydych eisiau ei wneud ar yr hyn y maent hwy wedi'i nodi fel eu hanghenion.

Cam 3

Sut i gyrraedd yr holl fuddiolwyr posibl a'u galluogi i ddefnyddio'r prosiect

Erbyn hyn, bydd gennych syniad clir o'r anghenion yr ydych chi'n ceisio eu diwallu, y bobl a fydd yn elwa o'r gwaith, a'r mathau o weithgareddau y mae'n rhaid i chi eu cynnig er mwyn diwallu eu hanghenion.

Y cam nesaf yw ystyried sut y byddwch yn sicrhau bod y bobl a allai elwa o'r prosiect yn gwybod amdano ac yn gallu ei ddefnyddio.

Mae ystod gyfan o faterion "mynediad" y mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi eu hystyried er mwyn i'ch grwpiau targed ddefnyddio eich prosiect. Bydd rhai o'r materion hyn yn fwy perthnasol i'ch prosiect nac eraill ac ni fydd rhai yn berthnasol o gwbl.

Mae'n gamgymeriad cyffredin iawn meddwl bod "mynediad" yn golygu dim ond mynediad cadair olwyn i adeilad neu lleoliad. Yn wir, mae materion mynediad yn cynnwys:

Lleoliad

Ydy eich lleoliad yn agos at gludiant cyhoeddus, mewn ardal sydd wedi'i goleuo'n dda, ac o fewn lle y mae eich grwpiau targed yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel ynddo? Os yw eich prosiect yn anelu at fod yn gynhwysol, a yw'r lleoliad mewn ardal a fydd yn cael ei chydabod yn un niwtral gan yr holl gymunedau?

Mynediad corfforol

A fydd pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gadeiriau gwthio, neu'r rheini sy'n cael grisiau neu ddrysau trwm yn anodd yn gallu defnyddio eich lleoliad?

Costau

A all eich grwpiau targed fforddio defnyddio eich gwasanaethau? A ydynt am ddim neu wedi'u prisio ar gyfradd fforddiadwy ar gyfer y bobl yr ydych chi'n ceisio'u denu?

Cyfathrebu

A oes gan eich grwpiau targed anghenion cyfathrebu penodol? A oes angen i chi ystyried gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol, darparu arwyddwr mewn digwyddiadau, cyflwyno cyhoeddiadau neu hysbysiadau mewn testun mwy, gweithio gyda thechnoleg negeseuon testun, ffôn symudol a'r rhyngrwyd gyda phobl ifanc? Gosod system ddolen sain ar gyfer defnyddwyr teclynnau clyw? A allwch chi ddefnyddio iaith syml ar gyfer pobl ag anawsterau darllen?

Amseru eich gwasanaethau

A all pobl ddefnyddio eich gwasanaethau neu fynychu gweithgareddau ar amser sy'n addas iddynt hwy?

A oes angen i chi gynllunio o amgylch gwyliau ysgol, gwyliau crefyddol y mae eich grwpiau targed yn eu dathlu, neu gynnig rhai gweithgareddau y tu hwnt i oriau

gwaith? A oes yn rhaid i chi gymryd egwyl er mwyn i bobl weddio ar amserau amrywiol yn ystod y dydd?

Cyfrifoldebau gofalu

A oes angen cefnogaeth gyda'u cyfrifoldebau gofalu am blant neu aelodau hŷn neu anabl y teulu ar unrhyw rai o'r bobl yr ydych chi'n eu targedu? A oes angen i chi gynnig gofal plant neu lwfansau eistedd gyda phobl, darparu meithrinfa neu sefydlu cylchoedd eistedd fel bod pobl yn rhydd i ddod i'ch gweithgareddau? Os ydych chi'n gweithio gyda phobl ifanc, a oes unrhyw rai ohonynt yn ofalwyr ifanc?

Bwyd ac ymborth

A oes angen i chi ystyried gwahanol anghenion dietegol ymhlith eich grwpiau targed? Gallai hyn fod oherwydd gofynion crefyddol neu ddiwylliannol, ond fe allai fod hefyd er mwyn darparu ar gyfer llysiuwyd neu ymateb i anghenion iechyd.

Cyhoeddusrwydd a marchnata

Pa ffurfiau ar gyhoeddusrwydd a fydd yn cyrraedd eich grwpiau targed? Pa bapurau newydd y maent yn eu darllen? Pa orsafoedd radio y maent yn gwrando arnynt? Lle maent yn mynd i gwrdd, i siopa, i weddio, i ddefnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd? Pa ddelweddau sy'n gwneud iddynt deimlo'n gyffyrddus? Petaent yn gweld eich taflenni neu'n dod i'ch adeilad, a fyddent yn gweld delweddau ac iaith a fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus?

Pobl

Petai pobl o'ch grwpiau targed yn dod i'ch adeilad neu eich digwyddiadau, a fyddent yn teimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus yno? A fyddent yn gweld pobl sy'n debyg i'w hunain, megis staff, gwirfoddolwyr neu ddefnyddwyr? A fyddent yn teimlo'n gyfforddus gyda'r cymysgedd o bobl yn y prosiect? A fyddent yn teimlo'n ddiogel yn datgelu gwybodaeth amdanynt eu hunain.

Cwestiynau cydraddoldeb allweddol:

- Beth allai fod yn atal pobl rhag defnyddio eich gwasanaethau, a sut allwch chi gael gwared ar y pethau sy'n ei gwneud yn anodd iddynt?
- Sut gallwch chi anelu y tu hwnt i anghenion eich defnyddwyr cyfredol?
- Sut allwch chi sicrhau bod yr holl bobl a allai elwa o'ch prosiect yn gwybod amdano?
- Sut allwch chi wneud i'ch holl grwpiau targed deimlo'n gyfforddus a'u bod yn cael eu deall yn eich prosiect?
- Sut allwch chi ddangos mewn ffyrdd ymarferol eich bod yn brosiect sydd eisiau gweithio gyda phawb yn y gymuned?
- Sut allwch chi ddangos yn eich gwaith beunyddiol eich bod yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion pobl ddifreintiedig yn eich cymuned?

Enghraifft: Canolfan deuluoedd leol

Cam 3: Cyrraedd yr holl fuddiolwyr posibl a'u galluogi i ddefnyddio'r prosiect

Mater mynediad	Yr hyn yr ydym eisoes yn ei wneud	Beth arall fyddai'n helpu ein grwpiau targed?
Mynediad corfforol	Mynediad cadair olwyn i ystafelloedd cyfarfod, hyfforddi a chynghori llawr gwaelod.	Liff i swyddfeydd ar y llawr cyntaf.
Materion lleoliad	Wedi'i leoli'n ganolog, yn agos at lwybrau bysiau.	Ystyried cynnig sesiynau mewn partneriaeth gyda grwpiau ieuencid lleol yn eu lleoliadau.
Materion ariannol	Ffioedd wedi'u cymorthdalau ar gyfer pobl ar fudd-daliadau.	Cyd-drafod cyfraddau archebu grŵp ar gyfer gwibdeithiau.
Materion cyfathrebu	Taflen wybodaeth a phoster am wasanaethau'r ganolfan yn Saesneg.	Gwefan y ganolfan i deuluoedd, gyda chylchlythyr misol ynghyd â gwybodaeth am wasanaethau. Cynhyrchu fersiwn o daflen a phoster yn y brif iaith Asiaidd yn lleol.
Amseru'r gwasanaethau	Cyrsiau magu plant yn cael eu cynnal yn ystod y dydd a gyda'r hwyr.	Cynnig sesiynau 'tadau a phlant' ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.
Cyfrifoldebau gofalu	Sesiynau chwarae wedi'u goruchwyllo ar gyfer plant y bobl sy'n defnyddio gweithgareddau'r ganolfan.	Annog aelodau'r ganolfan i sefydlu cylchoedd eistedd cydfuddiannol.
Materion bwyd ac ymborth	Ymdrin â maeth y teulu mewn cyrsiau magu plant.	Integreiddio sgiliau bwyd a choginio i sesiynau 'tadau a phlant'.
Cyhoeddusrwydd a marchnata	Dosbarthu taflenni gwybodaeth am y prosiect i gylchoedd chwarae a phrosiectau cymunedol eraill.	Annog yr orsaf radio leol i gynnal eitemau newyddion am ddigwyddiadau'r ganolfan.
Materion pobl	Mae 80 y cant o'r defnyddwyr yn fenywod. Mae 100 y cant o'r gwirfoddolwyr yn fenywod.	Mae'r cymysgedd hiliol yn cynrychioli'r ardal, ac eithrio cymunedau Asiaidd. Sefydlu cysylltiadau gyda phrosiect y gymuned Asiaidd er mwyn ein helpu i adnabod sut y gallwn gynnwys rhagor o rieni o gymunedau Asiaidd yn ein gwaith.

Bydd cymryd ychydig o amser i feddwl drwy eich gwaith fel hyn yn eich galluogi i:

- Feddwl yn fanwl am bwy y mae angen iddynt fedru defnyddio eich prosiect.
- Meddwl am anghenion pobl a grwpiau nad ydynt yn defnyddio eich gwasanaethau ar hyn o bryd.
- Adnabod pethau ymarferol yr ydych chi eisoes yn eu gwneud sy'n helpu eich grwpiau targed i wybod am eich gwaith a defnyddio eich gwasanaethau.
- Adnabod pethau ymarferol y gallech chi eu gwneud er mwyn ei gwneud hi'n haws i'ch grwpiau targed wybod am eich gwaith a defnyddio eich gwasanaethau.
- Mynnu enghreifftiau go iawn y gallwch chi eu rhoi yn eich cais am grant, er mwyn i'r Gronfa Loteri Fawr weld eich bod yn meddwl o ddifrif am arferion cydraddoldeb da ac yn ymrwymedig iddynt.

Ni fydd rhai newidiadau yn costio unrhyw arian ychwanegol, er enghraifft, creu cysylltiadau gyda gorsafoedd radio lleol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd penodol neu recriwtio gwirfoddolwyr o ystod ehangach o gefndiroedd. Bydd rhai newidiadau yn gofyn am arian, er enghraifft, gosod lifft, cyfieithu gwybodaeth neu wneud newidiadau i wefan. Gan hynny, dylech feddwl o ble y gallwch gynhyrchu'r arian y bydd ei angen arnoch, er enghraifft, ceisiadau grant; digwyddiadau codi arian, nawdd gan gwmnïau lleol etc. Ni fydd y Gronfa Loteri Fawr yn ariannu prosiect sy'n ymwneud â chynyddu mynediad i'r anabl yn unig, ond os yw eich prosiect yn cynnwys y costau hyn fel rhan fach o brosiect ehangach, yna bydd y costau hyn yn cael eu hystyried.

Os dymunwch gyflogi person anabl, mae'n bosibl y cewch arian gan gynllun Mynediad i Waith y llywodraeth, sydd wedi'i leoli mewn canolfannau gwaith lleol.

Mae'n syniad da trin y rhestr hon fel rhywbeth y mae'n rhaid i chi ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd.

Cofiwch!

- Mae gwneud eich prosiect yn hygyrch yn golygu mwy na sicrhau mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn i'r adeilad.
- Nid yw'n ddigon i dweud 'mae ein prosiect yn agored i bawb' yn unig.
- Mae'n bosib na fyddwch yn gallu gwneud yr holl newidiadau yr ydych chi wedi'u hadnabod ar yr un pryd. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi benderfynu p'un sydd bwysicaf ac a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.
- Mae llawer o addasiadau yn ymwneud â gwneud pethau ychydig yn wahanol – peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd gwneud newidiadau yn ddruod iawn.
- Yn eich cais i'r Gronfa Loteri Fawr cofiwch gynnwys enghreifftiau am sut y gallwch wneud eich prosiect neu weithgareddau yn agored i ddarpar ddefnyddwyr.
- Bydd rhai o'r materion hyn yn fwy perthnasol i'ch prosiect chi na rhai eraill, a hwyrach na fydd rhai yn berthnasol o gwbl.

Tynnir yr astudiaeth achos a ganlyn o gais diweddar i un o raglenni'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'n dangos mudiad a ystyriodd yn fanwl sut y gallai estyn allan i bobl a allai ei chael hi'n anodd defnyddio eu gwasanaethau. Sylweddolwyd bod angen cefnogaeth ar ofalwyr, ond y byddent yn wynebu anawsterau oherwydd amseru'r gwasanaethau, problemau cludiant, materion diwylliannol, cyfrifoldebau gofalu, ac oedran. Roedd y prosiect a gynlluniwyd ganddynt yn mynd i'r afael â'r holl faterion hyn, gan wneud y gwasanaeth mor hygyrch â phosibl i bawb a oedd yn gofalu am rywun â salwch marwol.

Astudiaeth achos arfer da

Creu gwasanaeth y gall pawb ei ddefnyddio

Adnabu hosbis yn gwasanaethu sir yn ne Lloegr mai ychydig iawn o sylw yr oedd yn ei roi i'w gofalwyr, er ei fod yn darparu gofal o'r radd flaenaf i'w chleifion. Ar ôl ymgynghori, fe gyflwynodd gais i'r Gronfa Loteri Fawr i ddatblygu prosiect newydd yn cyflwyno pecyn llawn o gefnogaeth emosiynol ac ymarferol i ofalwyr. Byddai hyn yn cynnwys gweithdai yn darparu cyngor ar godi a symud, budd-daliadau lles, cynnal eu hiechyd eu hunain a pharatoi ar gyfer y dyfodol.

O fewn y rhaglen gyffredinol hon, adnabu'r hosbis nifer o gamau ymarferol y gallai eu cymryd er mwyn cyrraedd y sawl yr oedd angen y gefnogaeth fwyaf arnynt:

- Byddai cludiant yn cael ei darparu i'r sawl sydd ag anawsterau symudedd neu'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell y dalgylch, drwy ymestyn ar y cynllun gyrrwyr gwirfoddol cyfredol.
- Byddai gwasanaeth o wirfoddolwyr i eistedd gyda phobl yn cael ei greu er mwyn rhyddhau gofalwyr i ddod i'r sesiynau.
- Byddai gwasanaeth cefnogi ar y ffôn yn cael ei sefydlu, er mwyn i bobl na allent ddod i'r sesiynau gael arweiniad proffesiynol a siarad â gofalwyr eraill.
- Roedd yr hosbis eisoes yn darparu taflenni gwybodaeth yn Eidaleg, iaith gymunedol fwyaf cyffredin yr ardal leol. Yr oeddent yn awr yn cynllunio ymestyn y gefnogaeth iaith drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ofalwyr mewn ieithoedd eraill gan ddefnyddio rhestr o gyfieithwyr cymeradwy yn eu gwaith gyda gofalwyr.
- Anelodd y prosiect at ehangu rhaglen fywiog cyfredol yr hosbis i wirfoddolwyr er mwyn targedu gwirfoddolwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig bach yn yr ardal.
- Fe wnaethant gynllunio partneriaeth newydd gyda phrosiect gofalwyr ifanc lleol, er mwyn adnabod anghenion gofalwyr ifanc ac ymateb iddynt.
- Byddai'r holl weithgareddau ar gyfer gofalwyr yn cael eu darparu am ddim, gan olygu na fyddai angen i unrhyw un golli allan oherwydd rhesymau ariannol.

Cam 4: archwilio materion rheoli a pholisi

Ar y pwynt hwn, dylai fod gennych syniad clir o'r angen y mae eich prosiect yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Dylai fod gennych syniad da o'r math o weithgareddau a fydd yn gwneud gwahaniaeth, a sut y gallwch sicrhau bod yr holl bobl a allai elwa o'ch prosiect yn gwybod amdano, yn gallu gwneud defnydd da ohono ac yn cael eu croesawu a'u deall yno.

Y mater cydraddoldeb olaf y mae'n rhaid i ei ystyried yw sut mae eich prosiect yn cael ei reoli, a'r gweithdrefnau rydych wedi'u rhoi ar waith i sicrhau eich bod yn trin pobl yn deg.

Sicrhau bod eich pwyllgor rheoli neu fwrdd ymddiriedolwyr yn adlewyrchu'r gymuned

Yn ychwanegol at sicrhau bod gan eich pwyllgor rheoli'r cydbwysedd cywir o sgiliau, mae'n rhaid i chi ystyried p'un a yw ei aelodaeth yn adlewyrchu'r mathau o bobl yr ydych chi'n ceisio eu gwasanaethu ai beidio. Er enghraifft, beth yw cyfran y dynion a'r menywod, gwahanol gymunedau ethnig yn eich cymuned, gwahanol oeddrannau a phobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl?

Bydd cynnwys y bobl yr ydych chi'n ceisio eu gwasanaethu wrth reoli eich mudiad neu brosiect o help i chi ddenu'r grwpiau hynny o fewn y gymuned i ddefnyddio eich gwasanaethau. Mae'n galluogi iddynt ddweud eu dweud a lleisio eu barn am sut mae gwasanaethau a pholisiau'n cael eu datblygu. Maent yn fwy tebygol o'ch gweld chi fel mudiad sy'n deall eu hanghenion, eu gwerthoedd a'u cyfraniad.

Sylweddolwn y gall fod yn anodd denu pobl o grwpiau penodol ar bwyllgorau.

Tynnir yr astudiaeth achos a ganlyn o gais diweddar i un o raglenni'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'n dangos mudiad sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ei bwyllgor rheoli yn cynrychioli'r gymuned mae'n ei gwasanaethu.

Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig lleol yn cael eu cynrychioli, ond hefyd bod gan y pwyllgor gymysgedd o weithwyr proffesiynol a gweithwyr nad ydynt yn broffesiynol, a phrofiad yn y gymuned ochr yn ochr â phrofiad mewn gwasanaethau iechyd.

Rhoddodd hyn bwl anferth o brofiad i'r mudiad dynnu arno, ynghyd â hygyrdd gyda'u defnyddwyr a chyda'r gweithwyr proffesiynol yr oeddent yn ceisio dylanwadu arnynt.

Astudiaeth achos arfer da

Rheoli ar gyfer cydraddoldeb

Gweithiodd canolfan iechyd cymunedol yng Nglasgow mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol a'r ymddiriedolaeth gofal cynradd er mwyn cynnal clinig iechyd cymunedol ar gyfer pobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd ei gwaith yn ymwneud â hyrwyddo iechyd, cyngor a thriniaeth

mewn amgylchedd sy'n sensitif yn ddiwylliannol.

Fe wnaeth y ganolfan gais i'r Gronfa Loteri Fawr i ariannu prosiect newydd a fyddai'n caniatáu i bobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig gymryd rhan wrth ddatblygu polisi iechyd lleol, ac yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd lleol yn cael eu datblygu mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu anghenion cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Roedd pwyllgor rheoli'r ganolfan iechyd yn amlwg yn adlewyrchu'r gymuned leol yr oedd y prosiect yn ei thargedu. Daeth yr aelodau o ystod o gymunedau lleol, gan gynnwys pobl o darddiad Arabaidd, Bangladesh, Indiaidd a Pacistanaid. Roedd eu harbenigedd yn amrywio o weithredwyr cymunedol lleol i weithwyr iechyd proffesiynol, ac ar draws y sectorau cymunedol, gwirfoddol a statudol. O ganlyniad i hyn, roeddent hwy mewn sefyllfa gref i gyflwyno ar sail y perthnasoedd, a hynny o fewn y gymuned a chyda'r gwasanaethau statudol a fyddai'n gwneud y prosiect yn llwyddiant.

Rhan o'r prosiect yr ymgeisiwyd amdano oedd prosiect iechyd i ddynion o'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, sef un o'r grwpiau anoddaf i'w gyrraedd ar faterion iechyd. Sefydlodd y prosiect grŵp llywio ar wahân ar gyfer y prosiect hwn, eto yn tynnu ar y cymunedau a dargedir. Ynghyd â rheoli aelod o staff yn gweithio ar gynyddu cyfranogiad dynion o'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig mewn polisi iechyd, rhoddwyd i'r grŵp llywio y dasg o ddatblygu clinig iechyd newydd ar gyfer dynion o'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig o fewn y ganolfan.

Rhesymeg y ganolfan oedd sicrhau bod barn yr holl gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn lleol yn cael ei chlywed, a bod y farn honno wedyn yn cael ei rhoi ar waith wrth gyflwyno polisiâu a gwasanaethau iechyd lleol. Wrth integreiddio'r egwyddorion hyn i strwythurau rheoli'r ganolfan ei hun, darparwyd sylfaen gref ar gyfer dylanwadu ar eraill.

A allaf weld hynny ar bapur? Eich polisi cyfle cyfartal

Yn awr yw'r amser i wirio bod yr holl faterion arfer da yr ydych chi wedi'u hystyried yn cael eu cynnwys ym mholisi cyfle cyfartal eich mudiad. Mae hon yn ddogfen ffurfiol sy'n:

- ddatganiad cyhoeddus o ymrwymiad eich mudiad i atal gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a thrin pobl yn deg
- crynodeb o'r ffyrdd ymarferol y byddwch yn rhoi cyfle cyfartal ar waith yn y ffordd y byddwch yn cyflogi pobl, yn cyflwyno gwasanaethau ac yn rheoli eich mudiad.

Bydd y Gronfa Loteri Fawr eisiau gwybod bod gennych bolisi cyfle cyfartal, a'r meysydd y mae'n ymdrin â hwy.

Camgymeriad cyffredin y mae mudiadau'n ei wneud yw meddwl y gallant fabwysiadu polisi "parod" neu gopïo polisi mudiad arall. Dyma'r problemau gyda'r ymagwedd hon:

- Nid yw wedi'i theilwra i'ch mudiad ac fe allai eich ymrwymo chi i wneud pethau nad ydynt yn briodol ar gyfer maint neu fath eich mudiad.
- Bydd eich mudiad wedi colli'r cyfle i feddwl a siarad am ei arferion cydraddoldeb yn ystod y broses o ysgrifennu eich polisi cyfle cyfartal. Ni fydd unrhyw un yn y mudiad yn credu eu bod yn wirioneddol yn 'berchen' arno, a bydd eu hymrwymiad i'r polisi yn wan.

Mae llawer o gymorth ar gael i fudiadau er mwyn eu helpu i wella yn y maes hwn. Mae'n bosibl y bydd y cyrff a ganlyn yn ddefnyddiol:

The Governance Hub

Desg gymorth: 0800 652 4886

www.governancehub.org.uk

NCVO-Lloegr

Desg Gymorth Rhadffôn: 0800 2798 798

www.ncvo-vol.org.uk

SCVO-Yr Alban

Rhadffôn: 0800 169 0022

www.scvo.org.uk

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ffôn: 029 2043 1700

www.wcva.org.uk

NICVA-Gogledd Iwerddon

Ffôn: 028 9087 7777

www.nicva.org.uk

Cofiwch!

- Bydd pwyllgor rheoli amrywiol yn cyfoethogi eich mudiad. Bydd yn meithrin cysylltiadau â phob rhan o'ch cymuned ac yn dod â syniadau a safbwyntiau newydd.
- Mae eich polisi cyfle cyfartal yn ddatganiad pwysig o'ch ymrwymiad. Peidiwch â mabwysiadu polisi rhywun arall: gwnewch e'n berthnasol i'ch mudiad a rhowch ef ar waith.

Adran 3

Nawr eich bod wedi ennill y grant: cydraddoldeb ar waith

1. Y Gronfa Loteri Fawr: sut y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i'ch mudiad roi cydraddoldeb ar waith ar ôl i chi dderbyn grant

Llongyfarchiadau! Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi dyfarnu grant i'ch mudiad.

Gan ddibynnu ar ba raglen yr ydych chi wedi ymgeisio amdani, mae'n bosibl y byddwch yn cael eich gwahodd i gyfarfod neu seminar gydag aelod o staff grantiau'r Gronfa Loteri Fawr i drafod y canlyniadau a'r cerrig milltir yr ydych chi wedi'u hamlinellu ar gyfer eich prosiect. Os felly, dylech fod yn barod i siarad am eich cynlluniau er mwyn estyn allan i grwpiau difreintiedig, yr anghenion sydd gan eich grwpiau targed, a'r cynlluniau sydd gennych er mwyn gwneud eich prosiect mor agored â phosibl i bawb a allai elwa ohono.

Bydd pob mudiad a fydd yn derbyn grant, p'un a fyddant yn cwrdd â staff y Gronfa Loteri Fawr ai peidio, yn derbyn amodau safonol grantiau'r Gronfa Loteri Fawr i'w llofnodi. Mae'r amodau safonol hyn yn cynnwys rhai sy'n perthyn i faterion cydraddoldeb. Ar lefel gyffredinol, gofynnir i'ch mudiad gytuno i'r canlynol:

Yn ystod cyfnod y grant y byddwn yn gweithredu mewn ffordd deg ac agored heb wahaniaethu ar sail hil, crefydd, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran nac anabled, ac mewn cydymffurfiad â deddfwriaeth berthnasol.

Cofiwch y bydd gan eich mudiad nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol yn perthyn i gyflogaeth a darparu gwasanaethau. Mae'r gyfraith yn newid yn gyson ac mae'n bwysig bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r adran ar 'Y gyfraith a chydaddoldeb' yn rhoi trosolwg byr i chi o bob un o'r prif ddeddfau sy'n rhaid i'ch mudiad fod yn ymwybodol ohonynt.

Hefyd bydd amodau penodol sy'n ymrwymo eich mudiad i:

- fod â pholisi cyfle cyfartal ar waith drwy'r amser
- monitro cynnydd y prosiect a darparu gwybodaeth am eich gweithgareddau a'ch buddiolwyr
- fod â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth cywir ar waith drwy'r amser
- rhoi sylw i gydraddoldeb yn ystod y broses recriwtio a dethol a'r angen am sicrhau cydbwysedd priodol o staff yn eich mudiad
- hysbysebu unrhyw swyddi a ariennir gan y grant yn allanol.

Nod yr adrannau a ganlyn yw eich helpu drwy'r pethau sylfaenol, er mwyn i chi fod yn siŵr eich bod yn bodloni amodau eich grant.

2. Arfer da recriwtio

Os yw'r grant a roddwyd i chi yn cynnwys arian i ariannu cyflogau swyddi **newydd**, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i chi weithredu proses recriwtio deg ac agored bob amser. Mae'r rheol hon yn berthnasol hyd yn oed os yw eich mudiad yn wynebu sefyllfa lle mae staff yn cael eu diswyddo. O dan y ddeddfwriaeth ddiswyddo, mae'n

rhaid i'r cyflogwr 'ystyried' p'un a oes cyflogaeth amgen addas yn bodoli ai beidio. Ni ellir 'ystyried' bod swyddi a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr yn ddewisiadau amgen addas gan eu bod yn amodol ar broses recriwtio agored.

Mae arfer da recriwtio a dethol yn ymwneud â bodloni'r safonau a ganlyn:

- Dylid cael disgrifiad swydd ar gyfer pob swydd a ariennir gan y grant, sy'n canolbwyntio ar y sgiliau a'r profiadau sy'n ofynnol i wneud y swydd.
- Os credwch fod swydd yn mynnu gofyniad neu gymhwyster galwedigaethol dylech ddarparu tystiolaeth o hyn. Bydd hyn yn cynnwys cyngor cyfreithiol proffesiynol ar gyflogaeth fod y gofyniad yn ddilys.
- Ni ddylai unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r broses recriwtio (disgrifiad swydd, hysbyseb, ffurflen gais etc) gynnwys unrhyw iaith sy'n gwahaniaethu yn erbyn unigolion neu grwpiau penodol.
- Dylid hysbysebu'r swydd y tu allan i'ch mudiad mewn ffyrdd a fydd yn cyrraedd y bobl a allai ymgeisio, gan gynnwys grwpiau difreintiedig. Fel arfer byddai hyn yn golygu rhoi hysbyseb mewn papurau newydd lleol neu genedlaethol, oni bai bod unrhyw resymau penodol dros wneud fel arall.
- Dylid asesu ymgeiswyr am y swydd yn erbyn y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol er mwyn ymgymryd â'r tasgau yn y disgrifiad swydd, ac nid ar unrhyw faterion eraill.
- Dylai'r panel cyfweld gynrychioli'n fras y bobl yr ydych chi'n ceisio'u cyrraedd. Os yn bosibl, dylent fod wedi derbyn hyfforddiant mewn recriwtio cyfle cyfartal.
- Dylech gadw cofnodion o'ch proses llunio rhestr fer a chyfweliadau er mwyn i chi allu cyfiawnhau'n glir y rheswm dros ddewis yr ymgeisydd llwyddiannus. Mae'n rhaid i chi fedru dweud sut maent yn bodloni'r gofynion sgiliau a phrofiad ar gyfer y swydd.

3. Cadwch gofnod o'r hyn yr ydych yn ei wneud: monitro ar gyfer cydraddoldeb

Weithiau mae mudiadau'n cwyno bod monitro ac adrodd yn niwsans ac y byddai'n well treulio amser yn 'bwrw ymlaen gyda'r gwaith'. Serch hynny, y gwir yw y bydd monitro da yn eich helpu i wella eich gweithgareddau a rheoli eich prosiect at safon uchel ynghyd â golygu y gallwch adrodd yn ôl i'r Gronfa Loteri Fawr am gynnydd eich gwaith. Bydd monitro da yn gallu eich helpu i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda yn eich prosiect ynghyd â'r meysydd lle mae cynnydd yn araf.

Bydd hyn o gymorth i chi ganolbwyntio'r sylw ar unrhyw broblemau yn y gwaith o gyfnod cynnar a chymryd camau i'w goresgyn. Bydd hyn yn cadw'ch sefydliad ar y trywydd cywir er mwyn cyflwyno prosiect o'r ansawdd uchaf i'r bobl yr ydych chi'n eu gwasanaethu.

Bydd monitro yn eich helpu i ateb cwestiwn cydraddoldeb allweddol:

A yw pawb a allai elwa o'ch prosiect yn ei ddefnyddio?

Mae'n bosibl bod eich prosiect yn defnyddio **ymagwedd gynhwysol** ac yn anelu at gynnig ei weithgareddau neu ei wasanaethau i bawb yn y gymuned a allai elwa

ohonynt. Bydd monitro yn eich helpu i adnabod a oes unrhyw “fylchau” amlwg o ran pwy sy’n defnyddio eich gwasanaeth. Er mwyn gwneud hyn rhaid i chi gymharu’r ffigurau yr ydych chi’n eu cael wrth fonitro gyda’r hyn yr ydych chi’n ei wybod am gyfansoddiad y boblogaeth yr ydych chi’n ei gwasanaethu (dylech fod wedi casglu’r wybodaeth ystadegol hon yn ystod cyfnod cynllunio eich prosiect).

Mae’n bosibl y gwelwch fod popeth yn iawn a bod lledaeniad eich defnyddwyr yn cynrychioli’r grwpiau yn eich cymuned a’r patrwm o angen. Fel arall, mae’n bosibl y byddwch yn gweld nad yw grŵp penodol y dylech chi fod yn ei gyrraedd yn bresennol. Hwyrach y bydd hyn yn tynnu eich sylw at fater cydraddoldeb y mae’n rhaid i’ch mudiad roi sylw iddo.

Os oes gan eich prosiect **ymagwedd a dargedir**, bydd monitro o gymorth i chi wirio eich bod yn rhoi digon o sylw i ffurfiau eraill ar anfantais y gallai pobl fod yn eu profi. Er enghraifft, mae’n bosibl y byddwch yn rhedeg prosiect yn benodol ar gyfer pobl hŷn sy’n profi unigedd cymdeithasol. Ond a ydych chi’n cyrraedd y sawl sy’n anabl, neu’r rhai ar incwm isel o fewn eich grŵp targed?

Os nad ydych yn cyrraedd y bobl yn eich cymuned a allai elwa o’ch prosiect, bydd monitro yn gweithredu fel system rybuddio gynnar. Mae’n bosibl y bydd yn rhaid i chi ymgynghori eto ar eu hanghenion, neu wneud newidiadau i’ch gwaith i’w galluogi i ddefnyddio eich gwasanaethau.

Cofiwch!

Mae gan ACAS swyddfeydd rhanbarthol a all ddarparu cyngor i gyflogwyr ar ystod eang o faterion cyflogaeth (www.acas.org.uk).

Maent hefyd yn rhedeg y llinell gymorth Equality Direct ar gyfer cyflogwyr bach. Ffoniwch: 0845 600 3444.

Cofiwch y gall y ddemograffeg leol newid dros amser. Gall monitro eich helpu i adnabod a oes defnyddwyr newydd posibl nad ydych chi wedi bod yn ymwybodol ohonynt yn flaenorol.

Pa wybodaeth fonitro y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn gofyn amdani?

Bydd yr union ofynion monitro yn amrywio o un rhaglen i’r llall ac yn unol â maint eich grant. Mae’r Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol iawn bod yr wybodaeth y mae’n gofyn amdani yn gymesur â swm yr arian a roddwyd i chi. Felly, po fwyaf y grant, mwyaf fydd y gofynion adrodd.

Pan fyddwch yn derbyn eich grant, bydd staff y Gronfa Loteri Fawr hefyd yn dweud wrthyich pa mor aml y maent yn disgwyl i chi adrodd ar gynnydd eich prosiect a pha wybodaeth y maent yn disgwyl ei derbyn oddi wrthyich (fe’u gelwir weithiau yn ‘ofynion monitro’).

Mae’r Gronfa Loteri Fawr yn gofyn am yr wybodaeth hon gan fod rhaid iddi sicrhau bod ei grantiau yn cael eu gwario’n dda a’u bod yn bodloni ei nod o gefnogi

prosiectau sy'n dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Yn fras mae dau fath o fonitro y gallai'r Gronfa Loteri Fawr ofyn i chi eu gwneud (dylech wirio gyda'ch swyddog grantiau os ydych yn ansicr pa fath sy'n berthnasol i'ch prosiect chi):

Monitro cydraddoldeb (adrodd yn ôl ar ddiwedd eich grant yn unig)

Bydd gofyn i brosiectau adrodd yn ôl yn erbyn rhai categorïau cydraddoldeb safonol ar ddiwedd cyfnod y grant. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn defnyddio'r wybodaeth hon i farnu i ba raddau y mae ei rhaglenni'n cyrraedd grwpiau penodol mewn cymdeithas.

Monitro cydraddoldeb (adrodd yn ôl trwy gydol eich grant)

Ar ddechrau eu grant, bydd gofyn i brosiectau amcangyfrif y ganran o bobl a fydd yn elwa o'u prosiect yn erbyn rhai categorïau cydraddoldeb safonol ac ar ba dystiolaeth y maent wedi seilio eu hamcangyfrifon. Gofynnir hefyd i brosiectau nodi sut y byddant yn cywain tystiolaeth trwy gydol eu prosiectau i ddangos y ganran o bobl sydd wedi elwa o dan yr un categorïau cydraddoldeb.

Ar ddiwedd bob blwyddyn, gofynnir i brosiectau ddweud wrthym beth y gwnaethant i sicrhau bod pawb a allai elwa o'u prosiect yn gwybod amdano neu'n medru ei ddefnyddio neu gymryd rhan ynddo. Gofynnir hefyd iddynt roi canran y bobl a elwodd o'u prosiect o dan yr un categorïau cydraddoldeb safonol a chefnogi hyn gyda thystiolaeth. Yn olaf, bydd gofyn i brosiectau ddweud wrthym pa mor effeithiol yr oeddent yn eu tyb hwy wrth sicrhau bod pawb a allai elwa o'u prosiect yn gwybod amdano neu'n medru ei ddefnyddio neu gymryd rhan ynddo, ac os bydd angen, beth y byddant yn ei wneud yn wahanol dros y flwyddyn i ddod.

Ar ddiwedd eu grant gofynnir cwestiynau tebyg i brosiectau, ond yn lle gofyn i brosiectau beth y byddant yn ei wneud yn wahanol y flwyddyn nesaf, byddwn yn gofyn beth maent wedi'i ddysgu dros gyfnod llawn eu prosiect.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi llunio canllaw i helpu prosiectau i fodloni'r gofynion hyn: Canllaw gwybodaeth Gydraddoldeb i ddeiliaid grantiau, sydd ar gael yn www.biglotteryfund.org.uk/welsh/wales/grant-wal/equality-information.htm

Cofiwch!

Nid yw'n ddigon casglu'r rhifau yn unig. Mae'n rhaid i chi eu hystyried mewn perthynas â:

- nodau eich prosiect a'r canlyniadau y dymunwch eu cyflawni, a
- chyfansoddiad eich cymuned.

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth fonitro i'ch helpu i wella eich gwaith, nid er mwyn adrodd i'r Gronfa Loteri Fawr yn unig

Mae rhagor o gymorth ar ddeall sut i fonitro ac adrodd ar gynnydd tuag at eich canlyniadau ar gael yng nghyhoeddiad y Gronfa Loteri Fawr 'Dod o Hyd i Ariannu a Chynllunio Prosiectau Llwyddiannus' sydd ar gael yn www.biglearningzone.org.uk/hafan.html

Materion Cydraddoldeb

Cefnogaeth pellach A: Y gyfraith a chydraddoldeb

Mae'r adran hon yn rhoi braslun o bob un o'r prif ddeddfau cydraddoldeb y mae angen i'ch mudiad fod yn ymwybodol ohonynt. Ymhob achos, ceir crynodeb o'r hyn a ddywed y gyfraith ac mewn rhai achosion nodir hefyd y goblygiadau ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Cofiwch fod y gyfraith yn newid yn aml: gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, mis Hydref 2011.

Nid yw'r adran hon yn ganllaw cynhwysfawr i'r gyfraith. Dylech geisio cyngor arbenigol ar gyfer unrhyw faterion neu broblemau cyfreithiol penodol. Ceir manylion asiantaethau sy'n medru rhoi mwy o wybodaeth neu gyngor ymhob adran.

Mae rhai termau a chysyniadau cyfreithiol yn gyson ar draws y rhan fwyaf o ddeddfau cydraddoldeb. Dyma'r rhai pwysicaf:

Gwahaniaethu uniongyrchol – mae hyn yn golygu trin un person yn llai ffafriol na pherson arall o dan yr un amgylchiadau ar sail hil, anabledd, ailaseinio rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, anabledd, oedran, tueddfryd rhywiol neu grefydd neu gred. Y driniaeth lai ffafriol ei hun sy'n bwysig; mae bwriad y person sy'n gwahaniaethu yn amherthnasol. Gallai gwahaniaethu uniongyrchol ddigwydd pan fo cyflogwr yn penodi dyn yn hytrach na menyw â chymwysterau gwell, neu pan fo prosiect ar gyfer pobl ifanc, yn sgil digwyddiad rhwng bechgyn o wahanol grwpiau ethnig, yn gwahardd y bechgyn du yn unig.

Gwahaniaethu cysylltiadol – gwahaniaethu uniongyrchol yw hwn yn erbyn rhywun gan ei fod yn gysylltiedig â pherson arall ar sail eu hil, rhyw, ailaseinio rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, anabledd, oedran, tueddfryd rhywiol neu grefydd neu gred. Gall gwahaniaethu cysylltiadol ddigwydd petai lle'n cael ei wrthod i unigolyn mewn cylch chwarae (a weithredodd bolisi o gynnig lle i frodyr a chwiorydd yn awtomatig) oherwydd pryderon y grŵp y byddai brawd yr unigolyn (sydd â pharllys yr ymennydd) yn faich o ran gofal.

Gwahaniaethu trwy ganfyddiad – dyma wahaniaethu uniongyrchol yn erbyn rhywun gan i eraill gredu bod ganddo/ganddi nodwedd benodol sy'n ymwneud â hil, rhyw, ailaseinio rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, oedran, tueddfryd rhywiol neu grefydd neu gred, p'un a oes ganddo/ganddi'r nodwedd hon ai beidio. Gallai hyn ddigwydd petai elusen yn gwrthod gwasanaethu rhywun ar sail y canfyddiad ei fod yn Foslem, hyd yn oed os oedd yr unigolyn â chrefydd neu gred arall (neu heb grefydd neu gred).

Gwahaniaethu anuniongyrchol – mae hyn yn golygu gosod amod neu arfer, maen prawf, rheol ffurfiol neu anffurfiol ar bawb sydd i'w weld yn 'niwtral' ond sydd â'r effaith, boed yn fwriadol ai beidio, o osod rhai grwpiau neu unigolion o hil, rhyw, ailaseinio rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, anabledd, beichiogrwydd a

mamolaeth, oedran, tueddfryd rhywiol neu grefydd neu gred o dan anfantais i gymharu ag eraill, os na ellir cyfiawnhau'r amod, yr arfer neu'r maen prawf fel modd cymesur o gyflawni nod dilys. Gallai gwahaniaethu anuniongyrchol ddigwydd pan fo mudiad yn bwriadu cyfyngu buddiolwyr prosiect i bobl sydd wedi byw mewn ardal benodol ers o leiaf bum mlynedd, sy'n debygol o roi grwpiau sydd wedi ymgartrefo yno'n ddiweddar o dan anfantais gan gynnwys, er enghraifft, grŵp o ffoaduriaid o Somalia a grŵp o deuluoedd o Wlad Pwyl. Gallai hefyd ddigwydd pan fo cyflogwr yn mynnu pum mlynedd o brofiad ar gyfer swydd weinyddol syml, sydd yn debygol o roi pobl ifainc a fyddai fel arall yn medru cyflawni'r swydd o dan anfantais.

Erledigaeth – mae hyn yn golygu trin person yn llai ffafriol oherwydd eu bod wedi gwneud cwyn am wahaniaethu anghyfreithlon, neu eu bod wedi cefnogi neu roi tystiolaeth ynglŷn â chwyn am gamwahaniaethu, neu y tybir eu bod wedi gwneud neu'n bwriadu gwneud hynny. Gallai erledigaeth ddigwydd petai cyflogwr yn eithrio gweithiwr rhag derbyn rhai buddiannau yn sgil y ffaith iddo gwyno fod cydweithiwr yn cael ei aflonyddu gan ei fod yn hoyw.

Aflonyddu – mae hyn yn golygu darostwng person arall i ymddygiad digroeso yn gysylltiedig â hil, rhyw, ailaseinio rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, oedran, tueddfryd rhywiol neu grefydd neu gred gyda'r bwriad neu'r effaith o amharu ar ei urddas neu greu amgylchedd gelyniaethus, brawychus, bychanol neu ofidus ar ei gyfer. Gall fod yn bwlio bwriadol amlwg, neu graffiti neu drais corfforol neu rywiol, ond gall hefyd gynnwys llysenwau, jôcs neu ymddygiad arall digroeso nad yw o reidrwydd yn fwriadol elyniaethus. Gall fod yn ddigwyddiad unigol neu'n ddigwydd yn barhaus. Gall aflonyddu ddigwydd pan wneir sylwadau hiliol i ddynes wen gan wybod fod ganddi blentyn o dras gymysg, neu pan fydd dyn Moslemaidd yn dioddef cwestiynau amherthnasol am ei gred.

Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd – mae hyn yn golygu trin person anabl yn anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig â'i anabledd ac na ellir cyfiawnhau'r driniaeth anffafriol. Mae hyn yn wahanol i wahaniaethu uniongyrchol sy'n digwydd pan fo person anabl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd yr anabledd ei hun. Gallai hyn ddigwydd petai mynediad i crèche yn cael ei wrthod i blentyn (sydd ag anabledd gan nad oes ganddo reolaeth lawn ar weithio'r corff) ar sail yr amymataliaeth (yn hytrach nag ar sail yr anabledd).

Atebolrwydd cyflogwyr – mae deddfau cydraddoldeb yn gwneud cyflogwyr yn atebol am weithredoedd o wahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon gan eu gweithwyr pan fyddant yn gweithredu yn rhinwedd eu cyflogaeth, heb ystyried p'un a oedd y cyflogwr yn ymwybodol ohono / yn ei gymeradwyo ai beidio, oni all y cyflogwr ddangos iddo gymryd camau ymarferol rhesymol i rwystro'r gwahaniaethu neu aflonyddu.

Gweithredu cadarnhaol – mae deddfau cydraddoldeb yn annog cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau i gymryd camau a allai olygu trin un grŵp yn fwy ffafriol pan fo hynny'n dull cymesur o helpu aelodau o'r grŵp hwnnw i oresgyn anfantais neu gymryd rhan yn fwy cyflawn, neu er mwyn diwallu anghenion sydd ganddynt y

maent yn wahanol i'r boblogaeth yn gyffredinol. Gelwir hyn yn gweithredu cadarnhaol ac mae'n berthnasol i unrhyw u o'r grwpiau o bobl sy'n rhannu hil, rhyw, ailaseinio rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, oedran, tueddfryd rhywiol neu grefydd neu gred penodol.

Mae enghreifftiau o weithredu cadarnhaol yn cynnwys:

- annog ceisiadau gan grwpiau a dangynrychiolir am swyddi a dyrchafiadau
- targedu hysbysebion i gyrraedd grwpiau a dangynrychiolir
- hybu cyfleoedd cyflogaeth mewn ffeiriau swyddi, diwrnodau agored a digwyddiadau eraill sy'n debygol o gael eu mynychu gan aelodau grwpiau a dangynrychiolir
- cynnig hyfforddiant gwaith penodol i aelodau grwpiau a dangynrychiolir, ymysg pobl sy'n gwneud y gwaith hwnnw
- cynnig dosbarthiadau Saesneg i fenywod mewn cymunedau mewnfwudwyr er mwyn iddynt gael mynediad gwell i wasanaethau lles lleol
- darparu clinigau cyn-geni teithiol a allai ymweld â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr sydd bob amser yn profi cyfraddau marwolaethau babanod anghymesur o uchel.

Mae gweithredu cadarnhaol neu driniaeth ffafriol er budd pobl anabl bob amser yn gyfreithlon.

Anghenion galwedigaethol – pan fo natur swydd neu'r cyd-destun y gweithredir ynddi yn golygu bod perthyn i hil, rhyw, ailaseinio rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, oedran, tueddfryd rhywiol neu grefydd neu gred arbennig yn ofyniad gwirioneddol ar gyfer y swydd honno, gall cyflogwr wahaniaethu ar y cyfryw sail wrth recriwtio, dewis, dyrchafu a/neu ddiswyddo, cyhyd â bod yr angen yn fodd cymesur o gyflawni nod dilys. Gallai bod yn fenyw Asiaidd fod yn ofyniad galwedigaethol gwirioneddol ar gyfer cwnsler mewn lloches i fenywod Asiaidd sy'n dioddef trais yn y cartref, ond ni fyddai bod yn fenyw Asiaidd fel rheol yn ofyniad galwedigaethol ar gyfer swyddog cyllid y lloches.

Lleoliad	Deddfau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Mudiadau a all ddarparu mwy o wybodaeth / gymorth mewn perthynas â'r gyfraith
Cymru, Lloegr a'r Alban	Deddf Cydraddoldeb 2010	<p>Mae'r Ddeddf yn dod â diweddariadau ynghyd ac yn cryfhau'r gyfraith ar wahaniaethu. yn gyffredinol, mae'n atal gwahaniaethu ar sail:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oedran • anabledd • ailaseinio rhyw • priodas a phartneriaethau sifil • beichiogrwydd a mamolaeth • hil • crefydd neu gred • rhyw, neu • dueddfryd rhywiol <p>Nodir y categorïau hyn yn y Ddeddf fel nodweddion a ddiogelir.</p> <p>Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn unrhyw un sydd â nodwedd a ddiogelir yn y gweithle wrth ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, wrth weithredu swyddogaethau cyhoeddus, wrth waredu a rheoli adeiladau, mewn addysg a chan gymdeithasau (megis clybiau preifat).</p> <p>Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amlinellu'r ffyrdd gwahanol y mae'n anghyfreithlon trin rhywun, megis gwahaniaethu</p>	<p>Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</p> <p>www.equalityhumanrights.com/</p> <p>Lloegr: 0845 604 6610</p> <p>Yr Alban: 0845 604 5510</p> <p>Cymru: 0845 604 8810</p> <p>NCVO www.ncvo-vol.org.uk</p> <p>Rhadffôn y Ddesg Gymorth: 0800 2 798 798</p> <p>ACAS www.acas.org.uk</p> <p>Llinell gymorth Equality Direct i gyflogwyr bach</p>

		<p>uniongyrchol ac anuniongyrchol, aflonyddu, erledigaeth a methu â gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer person anabl.</p> <p>Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno dyletswydd gydraddoldeb sector cyhoeddus newydd sy'n gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i wneud y canlynol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau:</p> <ul style="list-style-type: none">• dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon• hyrwyddo cyfle cyfartal yn weithredol rhwng pobl o grwpiau gwahanol a datblygu cysylltiadau da rhyngddynt hefyd <p>Gall fod yn berthnasol i fudiadau preifat a gwirfoddol os ydynt yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft o dan gontract i awdurdod lleol. Mae'n rhaid hefyd i'r prif awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi eu hamcanion cydraddoldeb yn ogystal â gwybodaeth sy'n dangos sut y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd.</p>	<p>Ffôn: 08456 003444</p>
--	--	---	---------------------------

Lleoliad	Deddfau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Mudiadau a all ddarparu mwy o wybodaeth / gymorth mewn perthynas â'r gyfraith
Cymru'n unig	Deddf yr Iaith Gymraeg 1993	<p>Yn mynnu y dylid trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail gyfartal mewn busnes cyhoeddus ac o fewn y system gyfiawnder yng Nghymru.</p> <p>Cyflwynodd y Ddeddf y cysyniad o gynlluniau iaith Gymraeg hefyd. mae cynllun yn ddogfen sy'n amlinellu sut mae corff cyhoeddus yn bwriadu datblygu darpariaeth iaith Gymraeg o ran y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflwyno a chynllunio gwasanaethau • ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg • delwedd gyhoeddus y mudiad <p>D.S. Gall fod yn berthnasol i fudiadau sector cyhoeddus os cânt eu contractio i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Ar ben hynny mae nifer o fudiadau gwirfoddol yn paratoi cynlluniau ac yn eu rhoi ar waith fel mynegiad o'u hymrwymiad i amrywiaeth ac i wasanaethu anghenion siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-gymraeg fel ei gilydd.</p>	<p>Bwrdd yr Iaith Gymraeg</p> <p>Ffôn: 029 2097 8000</p> <p>www.bwrdd-yr-iaith.org.uk</p>

		<p>gyfer gweithredoedd o wahaniaethu a gyflawnir gan eu cyflogyddion.</p> <p>Mae elusennau sy'n darparu budd-daliadau i bobl o gred grefyddol neu farn wleidyddol benodol wedi'u heithrio.</p>	
Yr Alban yn unig	Deddf yr Iaith Gaeleg (Yr Alban) 2005	<p>Sefydlodd hyn Fwrdd yr Iaith Gaeleg (Bord na Gaidhlig) i hyrwyddo defnydd a dealltwriaeth o'r iaith Gaeleg. mae'n ofynnol i'r Bwrdd ddatblygu cynllun iaith Gaeleg cenedlaethol, gan amlinellu sut mae'n bwriadu cyflawni ei nodau.</p> <p>Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r grym i'r Bwrdd fynnu bod awdurdodau cyhoeddus yn paratoi cynlluniau iaith Gaeleg ac yn eu rhoi ar waith, gan ddangos sut y byddant yn defnyddio'r iaith wrth wneud eu gwaith</p> <p>Nid yw cyrff gwirfoddol wedi'u cwmpasu'n benodol gan y Ddeddf.</p>	<p>Bord na Gaidhlig (Bwrdd yr Iaith Gaeleg) Ffôn: 01463 225454 www. Bord-na-gaidhlig.</p>

Materion Cydraddoldeb

Cefnogaeth pellach B: Chwalu jargon

Mae pob maes yn datblygu ei 'iaith arbennig' a'i dermau technegol ei hun. Mae'r termau a ddefnyddir mewn gwaith cydraddoldeb yn tynnu ar iaith arbenigol:

- rheoli prosiectau
- polisi cymdeithasol
- deddfau cyflogaeth a chydraddoldeb.

Mae'r adran hon yn darparu rhai o'r termau mwyaf cyffredin a'r ystyr yng nghydestun nod y Gronfa Loteri Fawr o hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r prosiectau yr ydym yn eu cefnogi.

Mae rhai o'r termau yn yr adran hon yn dermau cyfreithiol, ac os felly fe'u croesgyfeirir i'r adran flaenorol ar y Gyfraith a Chydraddoldeb.

Ni ddylid dibynnu ar y diffiniadau a roddir isod wrth ymdrin ag unrhyw gwestiwn neu fater cyfreithiol, pan ddylid ceisio cyngor gan asiantaeth arbenigol addas (gweler pennod y Gyfraith a Chydraddoldeb am fanylion).

Addasiadau rhesymol

(Gweler adran y Gyfraith a Chydraddoldeb)

Gwneud newidiadau perthnasol i safleoedd, ffurfiau cyfathrebu, trefniadau gwaith neu'r ffyrdd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i alluogi pobl ag anableddau i gael eu cyflogi neu gael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau. Bydd yr hyn sy'n 'rhesymol' yn dibynnu ar amgylchiadau, gan gynnwys maint ac adnoddau'r mudiad a natur y gyflogaeth neu'r gwasanaethau.

Aflonyddu

(Gweler adran y Gyfraith a Chydraddoldeb)

Ymddygiad digroeso, nad yw, o reidrwydd, yn fwriadol, gan amrywio o jôcs neu graffiti i ymosodiad corfforol sy'n tanseilio hunan-barch person neu sy'n creu awyrgylch ymosodol, bygythiol, cywilyddus neu sarhaus.

Allgáu cymdeithasol

Term cryno i ddisgrifio amgylchiadau unigolion, grwpiau neu gymunedau na allant gymryd rhan yn llawn mewn bywyd cyhoeddus na mwynhau'r buddiannau sydd ar gael yn gyffredinol o fewn cymdeithas. Yn aml mae'n seiliedig ar broblemau cysylltiedig megis diweithdra, prinder addysg neu sgiliau, incwm isel, tai gwael, iechyd gwael a dirywiad teuluol.

Amrywiaeth

Cydnabod a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau sy'n bodoli yn y ffactorau sy'n rhan o hunaniaeth pobl, megis rhyw, hil, ethnigrwydd, gallu corfforol a meddyliol,

rhywioldeb, hunaniaeth rhyw, oedran, statws economaidd, iaith, crefydd, cenedligrwydd, statws addysgol a theuluol. Trwy dynnu ar y gwahaniaethau hyn, bydd amrywiaeth yn ysgogi ffyrdd newydd o feddwl, ehangu gorwelion pobl a galluogi pob unigolyn i gyfrannu at eu cymuned, neu i weithgaredd neu fudiad penodol.

Anabledd

(Gweler adran y Gyfraith a Chydraddoldeb)

At ddiben deddfwriaeth cydraddoldeb gyfredol mae anabledd yn nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith negyddol sylweddol a thymor hir ar allu person i wneud gweithgareddau bob dydd. Gall hyn gwmpasu pobl sydd ag ystod eang o namau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Pobl â chyflyrau iechyd tymor hir, megis clefyd y siwgr
- Pobl â chyflyrau cynyddol, megis clefyd motor niwron
- Pobl sydd wedi derbyn diagnosis o HIV, canser a sglerosis ymlledol
- Pobl ag anableddau dysgu
- Pobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl sydd â phroblemau symud
- Pobl ddall ac â nam ar y golwg
- Pobl fyddar ac â nam ar y clyw

Ni fydd pobl sy'n 'anabl' at ddiben budd-daliadau neu wasanaethau yn cael eu cwmpasu yn y diffiniad uchod, ac ni fydd pobl sydd o fewn y diffiniad hwn o reidrwydd yn gymwys i dderbyn budd-daliadau neu wasanaethau penodol.

Anfantais/Difreintiedig

Pobl sy'n cael llai o gyfleoedd na'r mwyafrif o bobl yn y gymdeithas o'u hamgylch, o ran un agwedd neu fwy o'u bywydau, er enghraifft, addysg, iechyd neu gyflogaeth, neu sy'n cael safon bywyd is o'i gymharu gyda'r rhai o'u hamgylch. Gall bod yn ddifreintiedig fod yn ganlyniad nifer o wahanol ffactorau bywyd, a all atgyfnerthu ei gilydd. Mae bod yn ddifreintiedig yn aml yn gysylltiedig â thlodi, gall fod o ganlyniad i batrymau o wahaniaethu neu eithrio; gall deillio o fathau eraill o wahaniaethau ymysg pobl. Mae anfantais yn amrywio o gymuned i gymuned ac o fewn cymunedau.

Buddiolwr

Rhywun sy'n elwa o brosiect.

Canlyniadau

Y newidiadau, lles, problemau, dysg neu effeithiau eraill a ddaw yn sgil y gwasanaethau neu weithgareddau a ddarparwyd gan y mudiad.

Carreg filltir

Cyflawniad neu ddigwyddiad allweddol penodol sy'n nodi cam clir yn natblygiad y prosiect.

Cenedligrwydd

Y berthynas gyfreithiol rhwng person a gwlad sy'n cael ei chydabod ar ffurf hawliau dinesydd llawn. Gall cenedligrwydd fod yn hawl o ganlyniad i leoliad genedigaeth, neu genedligrwydd rhieni, neu drwy broses frodori.

Crefydd neu gred

Crefydd neu ddiffyg crefydd person neu gred grefyddol neu gred athronyddol, neu ddiffyg y cyfryw gred.

Cydlyniant cymdeithasol/cydlyniant cymunedol

Sefyllfa lle mae:

- gan bawb ymdeimlad cryf o berthyn
- gan bobl gyfleoedd bywyd tebyg beth bynnag eu cefndir
- gwahaniaethau diwylliannol a gwahaniaethau eraill rhwng pobl yn cael eu gwerthfawrogi
- perthynas gref a chadarnhaol yn bodoli rhwng pobl o wahanol gefndiroedd.

Cydraddoldeb

Pan fydd gan bob person hawliau, rhyddid a chyfle cyfartal mewn agwedd l ar eu bywydau a phan fydd eu hanghenion gwahanol yn cael eu cydnabod a bod rhwystrau'n cael eu dileu.

Cyfle cyfartal

Sicrhau nad oes rhwystrau ar sail ffactorau amherthnasol, megis rhyw, ailaseinio rhyw, ethnigrwydd, anabledd, tueddfryd rhywiol, oedran, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth neu statws priodasol neu deuluol, sy'n rhwystro pobl rhag sicrhau cyflogaeth neu gael mynediad llawn i wasanaethau.

Darparwyr gwasanaethau

Busnesau a mudiadau sector cyhoeddus, breifat neu wirfoddol sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, gyda neu heb daliad. Maent yn cynnwys siopau, banciau, bwytai, canolfannau hamdden, tafarndai a chlybiau, cyfrifwyr, swyddfeydd post, yr heddlu, y llysoedd, awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, a llawer o fudiadau gwirfoddol.

Erledigaeth

(Gweler adran y Gyfraith a Chydraddoldeb)

Trin rhywun yn annheg gan eu bod wedi gwneud neu wedi cefnogi cwyn am wahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon, neu oherwydd y tybir eu bod wedi gwneud, neu ar fin gwneud hynny. Mae erledigaeth yn cael ei drin fel ffurf ar wahaniaethu anghyfreithlon.

Ethnigrwydd neu dras ethnig

Yn disgrifio'r cwlwm rhwng pobl sy'n rhannu hanes, teimlad o hunaniaeth, gwreiddiau daearyddol a diwylliannol. Gall hefyd gynnwys tarddiad hiliol rhywun, ond mae'n llawer ehangach na hynny.

Gofyniad galwedigaethol

(Gweler adran y Gyfraith a Chydraddoldeb)

Gellir caniatáu dewis, hyrwyddo neu ddiswyddo ar sail hil, rhyw, ailaseinio rhyw, tueddfryd rhywiol, anabledd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd/cred neu oedran ar gyfer swyddi penodol pan fydd natur y swydd neu gyd-destun ei chyflawni ar gyfer hil, rhyw etc penodol yn ofyniad galwedigaethol ar gyfer y swydd honno.

Grŵp ethnig

Grŵp o bobl sydd â'r un ethnigrwydd/tarddiad ethnig.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

(Gweler adran y Gyfraith a Chydraddoldeb)

Cymhwysu maen prawf, polisi, rheol ffurfiol neu anffurfiol neu unrhyw arfer arall, sydd i'w weld yn 'niwtral' ac yn cael ei gymhwysu i bawb, ond sydd â'r effaith o beri anfantais i bobl o grŵp arbennig. P'un ai'n fwriadol ai beidio, mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn anghyfreithlon os na ellir cyfiawnhau'r maen prawf, y polisi etc fel dull cymesur o gyflawni nod dilys.

Gwahaniaethu lluosog

Gwahaniaethu yn erbyn person ar fwy nag un sail, er enghraifft trin menyw ddu yn llai ffafriol na menyw wen neu ddyn du mewn amgylchiadau tebyg.

Gwahaniaethu uniongyrchol

(Gweler adran y Gyfraith a Chydraddoldeb)

Trin un person yn llai ffafriol na pherson arall mewn amgylchiadau tebyg ar sail hil, rhyw, ailaseinio rhyw, anabledd, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred neu statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Gweithgareddau

Gweithredoedd, tasgau neu waith y mae prosiect neu fudiad yn eu gwneud i gyflawni ei nodau.

Gweithredu cadarnhaol

(Gweler adran y Gyfraith a Chydraddoldeb)

Mesurau sy'n cael eu caniatáu o dan amgylchiadau cyfyngedig i atal neu wneud iawn am anfantais o ran hil, rhyw, ailaseinio rhyw, statws priodasol a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, anabledd, oedran, tueddfryd rhywiol

neu grefydd neu gred. Mae gweithredu cadarnhaol yn annog cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau i gymryd camau a all gynnwys trin un grŵp yn fwy ffafriol pan fo hwn yn ddull cymesur o helpu aelodau'r grŵp hwnnw i oresgyn anfantais neu gymryd rhan yn fwy llawn, neu er mwyn diwallu anghenion sydd ganddynt y maent yn wahanol i'r boblogaeth yn gyffredinol. Nid oes cyfyngiadau ar weithredu cadarnhaol o unrhyw fath er budd pobl anabl.

Gwerthuso

Defnyddio a monitro gwybodaeth arall i ffurfio barn am lwyddiant mudiad, prosiect neu raglen o ran meini prawf neu ganlyniadau cytunedig. Gellir cynnal gwerthusiad mewnol neu allanol. (Gweler hunanwerthuso).

Hunanwerthuso

Ffurf o werthuso lle mae pobl o fewn mudiad yn ffurfio barn am berfformiad y mudiad tuag at gyflawni ei nodau ac amcanion. Gwneir hyn fel rhan o reoli prosiect.

Materion mynediad

Yr ystod eang o faterion y dylid eu hystyried i'w gwneud yn bosibl i wahanol fathau o bobl wybod am wasanaeth, ei ddefnyddio, a theimlo eu bod yn cael eu croesawu. Gall mynediad, sy'n golygu mwy na mynediad corfforol ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, gynnwys cyflawni anghenion cyfathrebu neu anghenion eraill pobl â gwahanol anabledau neu grwpiau â gwahaniaethau diwylliannol neu ieithyddol.

Monitro

Cywain a chofnodi gwybodaeth am brosiect yn systematig ac fel mater o drefn, yn bennaf at ddiben gwirio ei gynnydd yn erbyn y cynllun.

Monitro cydraddoldeb

Casglu gwybodaeth sy'n nodi i ba raddau y mae prosiect yn cyflawni neu wedi cyflawni ei nodau cydraddoldeb. Cyflawnir monitro cydraddoldeb er mwyn adrodd i'r Gronfa Loteri Fawr am bwy sydd wedi defnyddio'r prosiect neu'r gwaith a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr. Gall hefyd gynorthwyo mudiad i wybod ble mae angen gwneud newidiadau i bolisiau neu arferion cyflogaeth neu ddarparu gwasanaethau.

Nod

Rheswm dros fodolaeth prosiect neu fudiad a'r gwahaniaeth y mae eisiau ei wneud. Gall nodau fod yn rhai cyffredinol neu benodol.

Pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig (BME)

Term sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i gyfeirio at bobl sy'n perthyn i hil leiafrifol weledol neu grŵp ethnig nad yw'n grŵp pennaf yn y DU.

Polisi cyfle cyfartal

Dogfen sy'n amlinellu sut y bydd mudiad yn rhwystro gwahaniaethu ac yn annog cyfle cyfartal wrth gyflogi pobl a darparu gwasanaethau, ac yn y ffordd y mae'n cael ei reoli.

Rhyw

Mae rhyw yn cyfeirio at y dimensiwn cymdeithasol o fod yn wrywaidd neu fenywaidd a'r gwahaniaethau sydd wedi cael eu dysgu, sy'n newid dros amser ac sy'n gallu amrywio'n helaeth o fewn a rhwng diwylliannau.

Targed

Lefel o gyflawniad y mae prosiect neu fudiad yn ei osod i'w hun i'w gyflawni mewn cyfnod penodol o amser.

Tras cenedlaethol

Y genedl neu'r wlad y mae person yn uniaethu â hi drwy fagwraeth neu dras neu gwllwm diwylliannol neu ieithyddol, neu gwllwm arall. Nid yw o reidrwydd yr un fath â chenedligrwydd cyfreithiol ac mae'n cynnwys, er enghraifft, tarddiadau cenedlaethol Cymreig, Albanaid a Seisnig.

Tueddfryd Rhywiol

Bod yn heterorywiol, yn hoyw neu'n ddeurywiol.

Ymagwedd a dargedir

Dylunio a darparu gwasanaeth neu weithgaredd ar gyfer grŵp penodol. Gellid mabwysiadu ymagwedd a dargedir pan fo gan grŵp anghenion arbennig na ellir eu diwallu'n ddigonol o fewn gwasanaeth cyffredinol sy'n agored i bawb.

Ymagwedd gynhwysol

Darparu gweithgareddau neu wasanaethau ar gyfer y gymuned gyfan, a gweithredu er mwyn sicrhau bod pob unigolyn a grŵp yn gwybod am y gwasanaethau a'r prosiect ac yn medru eu defnyddio a chymryd rhan ynddynt, yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u trin yn deg (gweler Materion mynediad hefyd).

Materion Cydraddoldeb

Cefnogaeth pellach C: Siartiau cynllunio cydraddoldeb

Ymgeisio i'r Gronfa Loteri Fawr

Mae'r siartiau a ganlyn wedi'u cynllunio i'ch helpu i ystyried materion cydraddoldeb wrth gynllunio eich prosiect.

Nid oes rhaid i chi wneud hyn oll ar yr un pryd. Hwyrach y byddwch yn ei gweld hi'n well mynd i'r afael ag un cam ar y tro – ond mae'n bwysig cwblhau un cam cyn mynd i'r afael â'r un nesaf, gan eu bod yn adeiladu ar ei gilydd.

Rydym wedi darparu'r siartiau fel ymagwedd a awgrymir, ond nid yw'n orfodol eu cwblhau ac nid yw'n ofynnol i chi gyflwyno'r wybodaeth hon gyda'ch cais.

Awgrymiadau da ar gydraddoldeb

- Meddyliwch am faterion cydraddoldeb drwyddi draw'ch cais, nid yn unig fel rhywbeth 'ychwanegol'.
- Gwnewch gysylltiad rhwng yr anfantais yn eich cymuned a sut y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â hi.
- Meddyliwch y tu hwnt i anghenion eich defnyddwyr cyfredol. Sut gallwch chi sicrhau y bydd pobl gyda gwahanol fathau o anghenion yn gallu defnyddio eich prosiect neu weithio i chi yn y dyfodol?
- Rhowch enghreifftiau go iawn a phendant o sut y byddwch yn cymhwyso cydraddoldeb yn ymarferol. Peidiwch â bodloni ar ddweud bod gennych bolisi cyfle cyfartal – defnyddiwch y siartiau yr ydych chi wedi'u llenwi er mwyn rhoi enghreifftiau i'r Gronfa Loteri Fawr o sut rydych chi'n cymhwyso eich polisïau yn eich gwaith beunyddiol.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod wedi bodloni eich holl ymrwymadau cydraddoldeb oherwydd eich bod yn gweithio gydag un grŵp difreintiedig penodol. Efallai eich bod yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal, ond a ydych chi hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion y sawl yn eu plith sy'n anabl, neu sy'n rhieni eu hunain?

Cam 1: Deall yr angen a'ch buddiolwyr

Beth yw'r angen?	Pwy allai elwa o'r prosiect?	A ydym ni eisoes mewn cysylltiad â hwy?	Sut allwn ni ddysgu am yr hyn y mae ei angen arnynt?	Beth maen nhw wedi'i ddweud wrthym am eu hanghenion?
Disgrifiad cryno o'r broblem y dymunwch fynd i'r afael â hi. Byddwch yn benodol.	Disgrifiwch y bobl y gallai eich prosiect eu helpu. Meddyliwch am eich cymuned gyfan, nid dim ond y bobl yr ydych chi'n eu hadnabod yn barod. A oes unrhyw grwpiau yn wynebu anfantais benodol?	Rhestrwch ddefnyddwyr posibl yr ydych chi eisoes yn gweithio gyda hwy a defnyddwyr posibl nad ydych chi'n gweithio gyda hwy ar hyn o bryd.	Meddyliwch yn greadigol am sut y gallwch ymgynghori â phob mathau o ddefnyddwyr posibl. Meddyliwch yn benodol am y rheini nad ydych chi eisoes mewn cysylltiad â hwy. Bydd y rhain yn eich helpu chi i benderfynu pa weithgareddau fydd yn gwneud gwahaniaeth.	Llenwch bedwar i chwe mater allweddol sy'n deillio o'ch ymgynghoriad gyda defnyddwyr posibl.
*				

Awgrym:

Defnyddiwch yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn y siart hwn i'ch helpu i ateb cwestiynau'r Gronfa Loteri Fawr am:

- yr angen am y prosiect
- buddiolwyr y prosiect.

Cam 2: Bod yn glir am eich nodau, canlyniadau a'r hyn y dymunwch ei wneud

Pa wahaniaethau yr ydym eisiau eu gwneud? (nod cyffredinol)	Beth yw'r prif newidiadau yr ydym ni eisiau eu gwneud? (canlyniadau arfaethedig)	Beth fyddwn ni'n ei wneud er mwyn cyflawni hyn? (gweithgareddau)
<p>Dylai hyn gynnwys beth yw'r broblem a'r gwahaniaeth cyffredinol y dymunwch ei wneud. Cadwch e'n syml.</p>	<p>Nodwch hyd at chwe newid a fydd yn digwydd o ganlyniad i'ch prosiect.</p> <p>Defnyddiwch eiriau o newid e.e. "mwy", "llai" "gwell" "amgen".</p>	<p>Dyma eich tasgau, eich gwasanaethau neu eich gweithgareddau. Byddwch yn benodol a sicrhewch eu bod yn gysylltiedig â'r anghenion yr ydych chi wedi'u hadnabod a'r newidiadau y dymunwch eu gwneud.</p> <p>Defnyddiwch eiriau gweithredu megis darparu, gosod, rhedeg, creu, cynhyrchu ac yn y blaen.</p>

Awgrym:

Defnyddiwch yr wybodaeth a roddwch yn y siart hwn i'ch helpu i ateb cwestiynau'r Gronfa Loteri Fawr am:

- grynodedb y prosiect
- canlyniadau'r prosiect
- dull cyflwyno'r prosiect neu "yr hyn y bwriadwch ei wneud".

Cam 3: Sut i gyrraedd eich grwpiau targed a'u galluogi i ddefnyddio'r prosiect

Materion mynediad	Yr hyn yr ydym eisoes yn ei wneud	Beth arall fyddai'n helpu ein grwpiau targed?
Y pethau a all annog pobl rhag cymryd diddordeb neu achosi problemau i bobl a allai ddefnyddio eich prosiect.	Meddyliwch yn fanwl am ffyrdd yr ydych chi eisoes yn eu defnyddio er mwyn ceisio dileu rhwystrau. Dyma bethau y gallwch ddweud wrth y Gronfa Loteri Fawr yr ydych yn eu gwneud bob dydd.	Meddyliwch yn fanwl am sut y gallwch gael gwared ar y rhwystrau a adnabuwyd gennych yng ngholofn 1. Dyma'r pethau y gallwch ddweud wrth y Gronfa Loteri Fawr y bwriadwch eu gwneud yn y dyfodol i wneud eich prosiect yn hygyrch.
Lleoliad		
Mynediad corfforol		
Costau		
Cyfathrebu		
Amseru gwasanaethau		
Cyfrifoldebau gofalu		
Bwyd ac ymborth		
Cyhoeddusrwydd a marchnata		
Pobl		

Awgrym:

Defnyddiwch yr wybodaeth a roddwch yn y siart hwn i'ch helpu i ateb cwestiynau'r Gronfa Loteri Fawr am:

- fuddiolwyr y prosiect
- dull cyflwyno'r prosiect neu "yr hyn y bwriadwch ei wneud"
- cyfle cyfartal
- canlyniadau'r prosiect.

Materion Cydraddoldeb

Cefnogaeth pellach Ch: Manylion cyswllt allweddol

Lloegr

Llinell Gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Llinell Gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Rhadbost RRLG-GHUX-CTR

Tŷ Arndale

Canolfan Arndale

Manceinion

M4 3EQ.

0845 604 6610 – Prif rif Lloegr

0845 604 6620 – Ffôn testun Lloegr

0845 604 6630 – Ffacs Lloegr

Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9:00 am-5:00 pm;

Mercher 9:00 am-8:00 pm (galwad olaf am 7:45pm)

Cymru

Llinell Gymorth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru

Rhadbost RRLR-UEYB-UYZL

Llawr 1af

3 Sgwâr Callaghan

Caerdydd

CF10 5BT.

0845 604 8810 – Prif rif Cymru (gwasanaeth dwyieithog)

0845 604 8820 – Ffôn testun Cymru

0845 604 8830 – Ffacs Cymru

Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9:00 am-5:00 pm; Mercher 9:00 am-8:00 pm

(galwad olaf am 7:45pm)

Yr Alban

Llinell Gymorth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yr Alban

Rhadbost RRLG-GYLB-UJTA

The Optima Building

58 Robertson Street

Glasgow

G2 8DU.

0845 604 5510 – Prif rif Yr Alban

0845 604 5520 – Ffôn testun Yr Alban

0141 228 5912 – Ffacs Yr Alban Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9:00 am-5:00 pm;

Mercher 9:00 am-8:00 pm (galwad olaf am 7:45pm)

Gogledd Iwerddon

Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon

Equality House

7-9 Shaftesbury Square

Belfast

BT2 7DP.

028 90 500 600 – Prif rif

028 90 500 589 – Ffon testun

028 90 890 890 – Llinell ymholiadau

028 90 248 687 – Ffacs

E-bost: information@equalityni.org

Ffurflen ymholiadau ar-lein: gweler www.equalityni.org

ACAS

www.acas.org.uk

Llinell gymorth Equality Direct ar gyfer cyflogwyr bach

Ffôn: 08456 003444

Gweler 'Tackling Discrimination and Promoting
Equality: Good Practice Guide for Employers'